Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN, 21 MEHEFIN 2021**<br>**10.00 o'r gloch** | **MONDAY, 21 JUNE 2021**<br>**10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes**<br>**01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4 2020/21** (Tudalennau 17 - 30)

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 4, 2020/21** (Tudalennau 31 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **ALLDRO CYFALAF 2020/21** (Tudalennau 63 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R GYLLIDEB CRT – ALLDRO 2020/21** (Tudalennau 81 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **RHEOLIADAU HYGYRCHEDD CERBYDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2000** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**10** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 99 - 100)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**11** **CYNLLUN ADFYWIO (HEN SAFLE YSGOL A LLYFRGELL CAERGYBI)** (Tudalennau 101 - 112)

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar y 17eg o Fai, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Robert Ll.Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Wrth groesawu pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithiol hwn o'r Pwyllgor Gwaith, esboniodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ac y byddai ar gael i'w wylio wedi hynny hefyd.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A'I HARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol i'w cadarnhau -

- 15fed o Fawrth, 2021 (arbennig)
- 22ain o Fawrth, 2021

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y 15fed o Fawrth, 2021 (arbennig) a'r 22ain o Fawrth, 2021.**

## 4. PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar y 16eg o Fawrth, 2021 ar gyfer eu mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar y 16eg o Fawrth, 2021.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gan gynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mehefin, 2021 i Ionawr, 2022 i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei ystyriaeth ac fe nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitem 7 - Newidiadau i'r Cyfansoddiad: Pwerau Dirprwyedig - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol anstatudol - eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 21ain o Fehefin, 2021.
- Rhyddhau Cyllid ar gyfer cyn safle Ysgol y Parc, Caergybi – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 21ain o Fehefin, 2021, heb ei gynnwys ym Mlaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith fel y cyhoeddwyd, a
- Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus – hefyd yn eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 21ain o Fehefin, 2021, heb ei gynnwys ym Mlaen Raglen y Pwyllgor Gwaith fel y cyhoeddwyd.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mehefin, 2021 i Ionawr, 2022 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai gan gynnwys Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2021 i 2051, i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei ystyriaeth a'i gymeradwyaeth.

Rhagflaenodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau ei gyflwyniad i'r Cynllun Busnes CRT drwy ddiolch i staff y Gwasanaeth Tai am yr adroddiad a'r Cynllun ac am eu parodrwydd i newid y ffordd yr oeddent yn gweithio mor sylweddol yn ystod cyfnod y pandemig er budd unigolion bregus yr Ynys a thenantiaid y Gwasanaeth Tai. Mae'r Cynllun Busnes yn rhoi trosolwg o sut mae'r Gwasnaeth Tai wedi addasu ei wasanaethau er mwyn parhau i gefnogi ei denantiaid a phreswylwyr fel rhan o'r weledigaeth ac uchelgais adferiad Covid-19 ac mae'r canlynol ymysg y pwyntiau amlycaf -

- Disgwylir cwblhau 58 o dai cyngor newydd yn ystod y flwyddyn, o fewn 5 datblygiad sef Rhosybol, Llanfachraeth, Amlwch a Chaergybi ble mae dau ddatblygiad.
- Y caffaeliad o 15 o dai ychwanegol sydd wedi ei gynllunio drwy brynu cyn eiddo'r cyngor yn ôl a'u gwerthwyd drwy'r Hawl i Brynu.
- Y gwaith gwella ac uwchraddio mewn 53 eiddo yn ystâd Min y Môr yn Aberffraw ac ystadau Awel y Môr a Trem y Môr yn Rhosneigr.
- Datblygiad arloesol a'i gefnogir gan grant y Rhaglen 'Ôl-osod er mwyn Optimeiddio' Llywodraeth Cymru a fydd yn golygu y bydd pympiau gwres ffynhonnell aer hybrid yn cael eu treialu mewn 19 cartref ym Mhont y Brenin, Llangoed, fel rhan o gynllun peilot Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer. Bydd y rhain ymysg y cartrefi cyntaf yng Nghymru i gael Bydd y rhain ymhlith y cartrefi cyntaf yng Nghymru i gael eu gosod gyda'r system gwresogi hybrid newydd.

Adroddodd Bennaeth y Gwasanaeth Tai fod y Cynllun Busnes yn rhoi sylfaen gadarn o ran symud ymlaen a chyflawni blaenoriaethau'r Gwasanaeth, a'i raglen datblygu tai cyngor. Mae stoc tai'r Cyngor ar hyn o bryd yn 3,852 uned (proffil stoc yn 3.1 o'r Cynllun) ac erbyn diwedd y Cynllun Busnes bydd cyfanswm y stoc wedi cyrraedd 5000 o unedau yn seiliedig ar gynllun datblygu sy'n ceisio datblygu 45 o unedau tai cyngor newydd yn flynyddol. Mae'r CRT hefyd yn edrych i gyflawni'r drydedd raglen tai gofal ychwanegol ar yr Ynys a fydd yn ddatblygiad 40 uned yn ardal Aethwy; disgwylir i'r gwaith ar y datblygiad hwn gychwyn yn 2022/23. Cynghorodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai, gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar foddhad tenantiaid, mi oedd y Gwasanaeth Tai yn falch o weld canlyniad yr Arolwg Boddhad Tenantiaid ai gyhoeddwyd wythnos diwethaf gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn ystyried barn yr holl denantiaid Cymdeithas Tai ynghyd â thenantiaid yr 11 cyngor yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc tai; rhoddodd yr arolwg Gyngor Ynys Môn yn gyntaf o'r cynghorau o ran ansawdd y tai, ac yn ail am gynnal a chadw, am wrando ar denantiaid, ac am foddhad cyffredinol tenantiaid. Yn ogystal, yn ôl data Dangosydd Perfformiad a gafodd eu rhyddhau yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tai Ynys Môn gyntaf yng Nghymru am gasglu incwm rhent.

Ynghyd â chroesawu'r Cynllun Busnes CRT fel sail gweledigaeth y Gwasanaeth am yr ugain mlynedd nesaf yn seiliedig ar 'Cartrefi o Ansawdd: cymunedau cynaliadwy', fe ganmolodd y Pwyllgor Gwaith y Gwasanaeth Tai am y gwaith mae'r gwasanaeth wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf fel gwasanaeth arloesol gyda ffocws ar y cwsmeriaid sydd wedi ymrwymo i ddarparu tai fforddiadwy ac o ansawdd ar draws Ynys Môn, ac mi nododd yr Aelodau eu bod yn edrych ymlaen at wireddiad y Cynllun. Mi wnaeth aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd gydnabod yr amryw o ffyrdd mae'r Gwasanaeth Tai a'i staff wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf at yr ymateb i'r argyfwng pandemig ac yn benodol am arwain ar yr ymateb cymunedol Covid-19.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2021-2051 ac yn arbennig cyllideb y CRT ar gyfer 2021-2022 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2021-2022 fel y'i nodir yn y Gyllideb Gyfalaf.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Mehefin 2021 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752520<br>JHuwJones@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 2021** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| 2 | **Crynodeb o Gyfrifon Terfynol Drafft 2020/21** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| 3 | **Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| 4 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 8 Gorffennaf 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | Cyngor Llawn<br><br>28 Medi 2021 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Newid i'r Cyfansoddiad: Hawliau Dirprwyol – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol**<br><br>Argymelliad i'r Cyngor ganiatau hawliau dirprwyol | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn E Jones<br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | Cyngor Llawn<br><br>28 Medi 2021 |
| | **Medi 2021** | | | | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 7 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 9 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 11 | **Adolygiad Ariannol y Tymor Canolig** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

Tudalen 11

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail-gartrefi** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 13 | **Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 – i'w gadarnhau | |
| | | | | **Hydref 2021** | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| | | | | **Tachwedd 2021** | | | |
| 15 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>28 Hydref 2021<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Tachwedd 2021 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 17 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 18 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 19 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

Tudalen 13

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 21 | **Sail y Dreth Gyngor 2022/23**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2022/23 | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| | **Rhagfyr 2021** | | | | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 23 | **Cynllun Rheoli AHNE 2021-2025** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2022** | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |
| | **Chwefror 2022** | | | | | | |
| 25 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 26 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 27 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Gorffennaf 2021 – Chwefror 2022

Diweddarwyd 9 Mehefin 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | Cyngor<br>22 Chwefror 2022 |
| | | | | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

Tudalen 16

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | PWYLLGOR GWAITH |
| **Dyddiad:** | 23 MEHEFIN 2021 |
| **Pwnc / Testun:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2020/21) |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Caiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Ch4 yn sgil effaith y pandemig.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –*

1.3.1. Yn gyffredinol, dylid cynnal a gwella perfformiad ac yn achos y dangosyddion sydd yn is na'r targed, dylid cymryd y camau lliniaru a nodwyd i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2021/22.

1.3.2. Cynnal gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig cyn gynted â phosib i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer 2021/22.

1.3.3. Adolygu targedau 21/22 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy a lle bo'r pandemig coronafeirws yn effeithio ar dargedau, eu bod yn cael eu nodi a'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Amh. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 7/6. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2019/20 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2020 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2020/21)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn ystod blwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, wrth reoli'r pandemig Covid-19, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei rwymedigaeth mewn perthynas â'i ddyletswyddau. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethu hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod.

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd sydd yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant.

1.4. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau. Mae'r gweithgareddau busnes arferol pwysig hyn wedi cael eu symud ymlaen yng nghyd-desun y pandemig coronafeirws ehangach. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion i gadw staff a thrigolion yn ddiogel wedi dylanwadu ar y cyfnod, mae rhai adnoddau a chapasiti wedi'u hailgyfeirio, tra bod nifer o feysydd Gwasanaeth wedi wynebu heriau cynyddol yn yr hyn a gydnabyddir yn draddodiadol fel cyfnod anodd.

1.5. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin 2021.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fu modd adrodd ar yr holl ddangosyddion oherwydd y pandemig Covid-19 gan fod rhai o'n gweithgareddau dydd i ddydd wedi cael eu heffeithio oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol a'r cyfyngiadau i argaeledd rhai o'n gwasanaethau.

2.3. Cytunwyd ar dargedau'r Cerdyn Sgorio eleni ar sail perfformiad y flwyddyn flaenorol ac ar sut mae'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar berfformiad y dangosyddion eleni (h.y. cau a lleihau rhai o'n gwasanaethau).

2.4. Mae delio gyda'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol a chynnal busnes arferol lle bo'n bosib, ond hefyd wrth sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i warchod staff yr awdurdod wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'n trigolion.

2.5. Yn ystod Chwarter 4, roedd Cymru'n parhau i fod mewn cyfnod clo cenedlaethol (lefel rhybudd 4) am y rhan fwyaf o'r cyfnod, hyd at 15 Mawrth pan laciwyd ychydig ar y cyfyngiadau. Mae'r cyfnod clo wedi cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor ar ddechrau 2021/22, a bydd yn parhau i gael effaith, a thrafodir rhai ohonynt isod.

2.6. Roedd Chwarter 4 yn gyfnod arbennig o heriol wrth i'r ynys weld ei nifer uchaf o achosion positif o Covid-19, gyda chyfanswm o 1058 o achosion yn ystod y cyfnod a chlwstwr o achosion yn cael eu cadarnhau ar Ynys Gybi. Yn ystod rhan helaeth o'r cyfnod, Ynys Môn oedd â'r nifer uchaf o achosion fesul 100,000 o bobl yng Nghymru.

2.7. Cymerodd y Cyngor gamau cadarn ac amserol, yn cynnwys sefydlu Tîm Rheoli Achosion, cyflwyno profion cymunedol torfol, danfon dros 1800 o brofion PCR o ddrws i ddrws ac ail-bwysleisio'r rheoliadau ac ymddygiadau yn lleol.

2.8. O ganlyniad i'r ymateb ac ymyrraeth amlasiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa yn gyflym, gan osgoi lledaeniad cymunedol i gymunedau eraill ar Ynys Môn. Gellir gweld gwybodaeth bellach am ymateb y Cyngor i'r pandemig yma - <https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=153&MId=3898&Ver=4&LLL=1>

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod 87% o'r dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 6.68 diwrnod yn cael eu colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn yn erbyn targed o 9.75 diwrnod. Mae hyn yn welliant sylweddol ar unrhyw flwyddyn ariannol ers dechrau monitro'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac mae ar yr un lefel ag y gwelir ar ddiwedd Ch3 fel arfer. Mae'r canlyniad hwn yn un o'r ychydig welliannau y gellir eu gweld oherwydd y pandemig Covid-19, gan fod llai o gyswllt ag eraill wedi arwain at golli dim ond 1.94 diwrnod oherwydd salwch tymor byr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn drwy gydol y flwyddyn.

3.3. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd 'symud i wasanaethau digidol' wedi perfformio'n well nag yn y blynyddoedd blaenorol yn ystod y pandemig. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y taliadau ar y we yn Ch4, yn bennaf oherwydd y tâl

newydd am y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a'r ceisiadau drwy'r wefan hefyd am yr un rheswm.

3.4. Mae'r pandemig Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth arferol gwasanaethau gan y Cyngor yn 2020/21 ac, o'r herwydd, nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn a fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Mae'r tanwariant o £ 4.197m yn cael ei groesawu ac yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen, ond ni fyddai wedi'i gyflawni heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r galw am wasanaethau yn y dyfodol yn hysbys eto ac er bod cyfeiriad y pandemig byd-eang yn edrych yn ffafriol, bydd yn her ymateb i'r gofynion yn dilyn y pandemig. Mae'n debygol y bydd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu yn 2021/22 wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws llacio ac normalrwydd yn dychwelyd. Os felly ni fydd yn syndod os bydd Gwasanaethau yn gorwario ar eu cyllidebau yn ystod 2021/22 a bydd hyn yn cael ei gyllido o Falensau Cyffredinol y Cyngor.

3.5. Mae angen gwaith pellach i fodelu'r effaith a bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, cyn cychwyn ar y broses gyllideb ar gyfer 2022/23.

3.6. Roedd y gyllideb gyfalaf cychwynnol ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 yn £37.305m, a chydag ychwanegiad llithriad a chyllid grant pellach yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer 2020/21 i £58.425m. Y gwir wariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £33.129m. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith drosglwyddo £11.898m o brosiectau ymlaen i raglen gyfalaf 2021/22 a bydd hyn yn dod â'r rhaglen gyfalaf 2021/22 i £48.053m.

3.7. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch4' a'r adroddiad 'Monitro Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch4' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mehefin.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar nifer o'r DPA sy'n cael eu monitro trwy'r Cerdyn Sgorio. Ar ddiwedd y flwyddyn, yn achos 13 o'r dangosyddion (28% o'r dangosyddion) roedd Llywodraeth Cymru wedi canslo'r angen i gasglu data ar eu cyfer neu nid yw'r data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd am resymau sydd tu hwnt i'n rheolaeth.

4.2. Mae'r rhesymau dros y rheini sydd wedi'u heffeithio yn cynnwys y DPA sy'n gysylltiedig â:

- Dangosyddion y Gwasanaeth Dysgu (eitemau 1-7) – roedd ysgolion ar gau tan fis Medi a chanslwyd arholiadau. Mae llyfrgelloedd hefyd wedi bod ar gau.
- Tai (eitemau 18, 31-32, 34) – mae dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru wedi'u hatal. Oherwydd y pandemig, mae oedi pellach wedi effeithio ar feddalwedd newydd i fesur boddhad cwsmeriaid.
- Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitemau 8, 11-12) – bu Canolfannau Hamdden ar gau a dim ond yn raddol yr ail-agorwyd nhw

dros yr haf. Mae hyn wedi arwain at lawer iawn llai o ymweliadau ac o ganlyniad roedd yn amhosibl gosod unrhyw dargedau ystyrlon. Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) hefyd wedi'i atal oherwydd y pandemig coronafeirws.

- Gwasanaethau Oedolion (eitem 19) – mae'r dangosydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal wedi'i atal oherwydd y gwaith hanfodol a wneir gan y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws.

4.3. Ar ddiwedd blwyddyn heriol i bawb, ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill ac y byddir yn adrodd arnynt ar ddiwedd y flwyddyn (33 dangosydd), mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif (70%) ohonynt yn perfformio'n uwch na'r targedu neu o fewn 5% i'w targedau. Dylid dathlu'r llwyddiannau hyn wrth ddrafftio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol y craffir arno yn ddiweddarach eleni.

4.4. Mae'n gryn bleser gweld canlyniadau dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (eitemau 19-24) yn ystod cyfnod pan oedd y gwasanaeth dan bwysau sylweddol iawn oherwydd y pandemig Covid-19. Mae pob dangosydd a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn wedi cyrraedd eu targedau ac mae 80% (4 allan o'r 5) wedi perfformio'n well neu wedi cynnal y perfformiad a welwyd yn 2019/20.

4.5. Mae dangosyddion y Gwasanaeth Tai (eitemau 13-18 a 31-36) sydd ar gael i'w dadansoddi hefyd wedi perfformio'n gryf yn erbyn eu targedau yn ystod blwyddyn anodd. Mae 78% o'r dangosyddion (7 o'r 9) yn well na'r targedau ar gyfer y flwyddyn tra bod y 2 sy'n weddill, y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio arnynt, yn cael eu trafod isod.

4.6. Mae dangosyddion Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (eitemau 25-30) hefyd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn gyda 83% o'r dangosyddion (5 allan o 6) naill ai yn uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau.

4.7. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod deg o ddangosyddion wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol ac maent yn cael eu hamlygu fel rhai Coch neu Ambr yn y Cerdyn Sgorio.

4.8. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** wedi bod yn dda gan mai dim ond dau ddangosydd a nodwyd a oedd yn tanberfformio.

4.8.1. Dangosydd 3 – Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET) – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 4.2% yn erbyn targed o 3%

*Cyhoeddwyd y dangosydd hwn gan Gyrfa Cymru ar ôl cymryd arolwg ym mis Tachwedd 2020 ar y rhai nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET) ac yn gadawyr blwyddyn 11 ym mis Mai 2020. Mae'r perfformiad yn golygu bod y Cyngor yn y chwartel isaf ar gyfer y dangosydd hwn ar gyfer y flwyddyn. Er bod y pandemig Covid-19 yn ddi-os wedi cael effaith ar berfformiad y dangosydd hwn, gan nad oedd swyddogion yn gallu ymweld â chartrefi'r bobl ifanc, roedd ffactorau eraill yn amlwg hefyd.*

*Mae Swyddogion Ieuenctid yn gweithio'n agos â'r bobl ifanc sy'n NEETs unwaith y derbynnir eu henwau gan Gyrfa Cymru. Yn anffodus eleni,*

*oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth, nid oeddem yn ymwybodol o'r unigolion tan fis Tachwedd, pan gynhaliwyd yr arolwg. Codwyd hyn yn ffurfiol gyda Gyrfa Cymru.*

*Wrth edrych ymlaen, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cytuno â Gyrfa Cymru ar weithdrefn newydd i'w ddilyn ar gyfer 2021. Sefydlwyd panel Blwyddyn 11 hefyd, gydag aelodau'n cynrychioli TRAC, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Swyddogion Lles, Cyfiawnder Ieuenctid ac eraill, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau. Bydd systemau eraill sydd eisoes ar waith yn cael eu defnyddio hefyd i wella'r perfformiad hwn yn y dyfodol.*

4.8.2. Dangosydd 10 – Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 43% yn erbyn targed o 80%, sydd yn well na'r 13% a gynhaliwyd hyd at ddiwedd Ch3.

*Effeithiwyd ar y gwaith hwn gan y pandemig Covid-19, lle nad oedd ond modd cynnal 35 o'r 159 o arolygiadau a gynlluniwyd ers mis Ebrill 2020. Roedd hyn oherwydd bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn canolbwyntio ar waith yn gysylltiedig â rheoli haint a Covid-19 yn ystod y pandemig. Mae'r holl achosion y tynnir sylw'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd atynt gan y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) yn cael eu hymchwilio sy'n golygu nad oes bron dim capasiti ar gael i gynnal archwiliadau hylendid bwyd.*

*Er ein bod wedi cyflogi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ymgynghorol i gynorthwyo gyda diogelwch bwyd, mae'r gwaith wedi cael ei lesteirio oherwydd bod busnesau ar gau ac oherwydd y cyfnodau clo. Defnyddiwyd unrhyw adnoddau oedd ar gael i ymateb i ganllawiau blaenoriaethu'r Asiantaeth Safonau Bwyd, h.y. safleoedd gradd A a safleoedd risg uchel B, ymchwilio i gwynion a darparu canllawiau i fusnesau newydd. Yn ogystal, mae dirywiad mewn safonau ac achosion o fethu â chydymffurfio yn y safleoedd hynny a archwiliwyd yn golygu y gall gymryd llawer mwy o amser i'w datrys.*

4.9. Roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dda hefyd ac yn dangos bod tri dangosydd o'r 16 a gafodd eu monitro (19%) yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

4.9.1. Dangosydd 27 – Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 32% yn erbyn targed o 10%. Mae hyn yn well na'r ffigwr o 35% a welwyd ar ddiwedd Ch3. Fodd bynnag, mae'n tanberfformio o gymharu â'r ffigwr o 12.75% a gofnodwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Ar ôl adolygu ffeiliau achos y plant sydd wedi cael ailasesiad yn ystod y flwyddyn, canfuwyd eu bod oll wedi eu hail-gyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth. Roedd pob un wedi'u hail-gyfeirio oherwydd rhesymau newydd a sefyllfaoedd a oedd yn codi na ellid bod wedi eu rhagweld na'u hatal.*

4.9.2. Dangosydd 35 – Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod uned llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) – sydd yn

GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 45.6 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod. Mae hyn yn well na'r 62.1 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3.

*Oherwydd y pandemig, ni fu modd gosod ein Stoc Tai Cyngor mor gyflym ag arfer a hynny'n bennaf oherwydd bod rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a rheolau pellter cymdeithasol.*

*Mae mwy o unedau bellach yn cael eu gosod, fel y gwelir o'r gwelliant mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae'r cyfnod clo wedi cael effaith ar unrhyw welliant pellach.*

4.9.3. Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.98% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.50%, ond mae hyn ychydig yn well na'r 2.09% a welwyd ar ddiwedd Ch3.

*Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodir uchod. Gan ei bod yn cymryd mwy o amser i osod unedau llety mae swm y rhent a gollir yn uwch.*

4.9.4. Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion **Amcan 3** wedi bod yn gymysg yn sgil effaith y pandemig. Mae pum dangosydd o'r 10 (50%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan hwn wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

4.9.5. Dangosydd 38 - Canran y gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio - sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 62.96%.

*Mae'r dangosydd hwn yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni y targed hirdymor a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o wastraff erbyn 2025, ond mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar berfformiad y dangosydd hwn gan fod y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ar gau ddechrau'r flwyddyn.*

*Cyflwynwyd system archebu ar-lein/dros y ffôn pan ganiatawyd i'r Canolfannau Ailgylchu ailagor, ond mae'r galw wedi aros yn isel gyda nifer o gannoedd o apwyntiadau heb eu llenwi bob mis. Mae'r ffaith bod y canolfannau wedi bod ar agor am lai o amser a'r gostyngiad yn y galw wedi golygu bod ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig wedi derbyn llai o dunelli o ddeunyddiau ailgylchu ac mae hynny yn ei dro wedi effeithio ar ein perfformiad.*

*Yn ogystal â'r uchod, mae'r contractwr trin sgubion stryd wedi cael problemau wrth brosesu rhai elfennau o'r deunyddiau ailgylchu o sgubion stryd y mae'n eu derbyn gan y Cyngor yn ystod y pandemig Covid-19. Golyga hyn y bu oedi wrth brosesu/cyfrif y tunelli o ddeunyddiau ailgylchu a fyddai fel arfer yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm cyffredinol y Cyngor (mae hyn wedi effeithio ar chwarter 3 a 4 2020/21).*

*Mae swyddogion wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r contractwr trin sgubion stryd er mwyn sicrhau bod y deunydd yn cael ei brosesu heb oedi ac*

*maent wedi sefydlu datrysiad trin wrth gefn hefyd. Mae swyddogion yn trafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd er mwyn sicrhau bod yr holl hawliadau ar gyfer pwysau'r deunyddiau ailgylchu'n cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau.*

4.9.6. Dangosydd 41 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sydd yn GOCH gyda 79% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn is na'r 90% a welwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Mae hwn yn ddangosydd arall y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio arno, lle bu'n rhaid atal archwiliadau safle a gofynion hysbysebu. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau safle drwy gydol y flwyddyn ar gyfer swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio wedi ei gwneud yn anodd i'r Swyddogaeth Cynllunio berfformio cystal ag yn y gorffennol. Mae amryw o ffactorau eraill wedi effeithio ar y canlyniad hwn yn cynnwys ôl-groniad o geisiadau hanesyddol, swydd wag o fewn y gwasanaeth, a capasiti cyfyngedig mewn perthynas â nifer y ceisiadau newydd a chwiliadau tir.*

*Addaswyd arferion gwaith yn barod a chedwir llygaid arnynt mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw. Bydd cyfleoedd yn cael eu nodi hefyd yn y dyfodol agos i gryfhau capasiti'r Swyddogaeth Cynllunio, drwy gyfrwng y Cynllun Gwella Cynllunio.*

4.9.7. Dangosydd 43 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sy'n GOCH gyda pherfformiad o 58% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn well na'r 55% a welwyd ar ddiwedd Ch3. Fodd bynnag, mae'n is na'r 78% a welwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Nid yw'r dangosydd hwn ond yn ymwneud â niferoedd bach iawn a gellir priodoli'r perfformiad ar ddiwedd y chwarter hwn i'r ffaith bod 7 o'r 12 o apeliadau wedi eu cadarnhau. Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar y math o geisiadau a dderbynnir ac mae'n anochel y bydd rhai apeliadau cynllunio yn llwyddiannus. Roedd rhai o'r apeliadau a wrthodwyd yn ymwneud â cheisiadau am dai newydd i gymryd lle tai presennol a nodwyd eisoes bod pryder ynghylch dehongliad swyddogion.*

*Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cysondeb yn y penderfyniadau a/neu ddehongliad swyddogion o'r ceisiadau er mwyn lleihau nifer yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.*

4.9.8. Dangosydd 43 – Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod – sy'n AMBR gyda pherfformiad o 74% yn erbyn targed o 80%. Mae'r perfformiad hwn yn gyson â'r 74% a gyflawnwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Mae'r pandemig wedi parhau i effeithio ar berfformiad y dangosydd hwn gyda'r archwiliadau safle a'r cyfarfodydd arferol yn cael eu cynnal mewn ffordd wahanol ac yn rhithiol lle bynnag y mae'n bosib. Gwelwyd cynnydd da yn ystod y chwarter gan yr ymchwiliwyd i 75% o achosion (87 allan o 116 achos) er gwaetha'r ffaith y derbyniwyd 45% o gyfanswm y cwynion*

*gorfodaeth yn ystod chwarter olaf y flwyddyn (116 achos o'r 256 a dderbyniwyd drwy gydol y flwyddyn).*

4.9.9. Dangosydd 44 – Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael – sydd yn AMBR gyda chanlyniad o 4.6% yn erbyn targed o 3%. Mae perfformiad wedi gostwng o gymharu â 4% ar ddiwedd 2019/20.

*Y rheswm pennaf am danberfformiad y dangosydd hwn yw'r cyllid sydd ar gael i gadw amodau'r ffyrdd mewn cyflwr da. Fodd bynnag, ni chwblhawyd yr arolwg SCANNER, a gynhelir yn yr hydref fel arfer, tan y gaeaf eleni. Roedd hyn am fod y contractwr wedi ei leoli yn Lloegr ac nid oedd yn gallu cwblhau'r gwaith yn gynharach oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 oedd mewn lle ar y pryd. Mae'n debygol bod y ffaith i'r gwaith hwn gael ei wneud yn hwyr wedi cael effaith negyddol ar berfformiad y dangosydd hwn oherwydd effaith y tywydd oer.*

*Fodd bynnag, mae'n debygol bod gostyngiad yn y traffig ar ein ffyrdd oherwydd Covid-19 wedi arwain at lai o ôl traul ar y rhwydwaith ffyrdd drwy gydol y flwyddyn nag y disgwylir mewn blwyddyn arferol. Pe bai'r traffig arferol ar y rhwydwaith ffyrdd, yna mae'n debyg y byddai wedi arwain at ganlyniad gwaeth na'r un sy'n cael ei adrodd.*

*Yn ogystal, nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi yng nghyflwr yr A5025 o'r Fali i Amlwch oherwydd cynigion am fuddsoddiadau ar gyfer Wylfa Newydd. Adlewyrchir y tanfuddsoddiad hwn yng nghanlyniadau'r arolwg ar gyfer y ffyrdd dosbarth A.*

*Yn ystod 2021/22 ymdrechir i wella cyflwr y ffyrdd dosbarth A, yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a chanlyniadau'r arolwg SCANNER o gyflwr y ffyrdd.*

4.10. Mae ein perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr holl ddangosyddion y gellir eu cymharu (cyfanswm o 33) yn dangos bod 19 (58%) wedi gostwng yn ystod y flwyddyn, 9 (27%) wedi gwella a 5 (15%) wedi cynnal eu lefel perfformiad.

4.11. Dengys y canlyniad hwn hefyd bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar lefel ein perfformiad. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod 78% o ddangosyddion yn well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau yn rhoi hyder bod perfformiad ar gyfer y flwyddyn yn gadarnhaol ar y cyfan, o dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

4.12. Eleni, ni fydd yn bosib amcangyfrif sut mae ein perfformiad yn cymharu â pherfformiad cenedlaethol yn 2019/20 oherwydd i waith meincnodi'r Mesurau Asesu Perfformiad (PAM) gael ei ohirio ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu dangosyddion perfformiad ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i Data Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn dilyn hynny, dylai data fod ar gael i'w ddadansoddi yn ddiweddarach eleni er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o faint o effaith mae'r pandemig Covid-19 wedi'i gael ar ein gwasanaethau o gymharu ag eraill. Rhennir y dadansoddiad hwn yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i sgrwtini yn yr hydref.

4.13. Yn gyffredinol, eleni fu'r cyfnod anoddaf ers sefydlu'r Cyngor hwn. O ystyried ein bod wedi cychwyn y flwyddyn yn wynebu ansicrwydd sylweddol yng nghanol

pandemig byd-eang, mae'n rhyfeddol pa mor dda oedd perfformiad ar y cyfan. Mae staff y Cyngor wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn ac mae nifer o staff wedi cyflawni rolau nad oeddent yn bodoli cyn y pandemig. Mae llawer iawn staff eraill wedi cyflawni eu dyletswyddau ar wahân i'w cydweithwyr ac wedi gorfod gweithio mewn ffyrdd newydd a oedd yn aml yn heriol. Dylid dathlu ymdrechion staff i ddarparu gwasanaethau i'n trigolion oherwydd heb eu hymdrechion a'u hyblygrwydd, ni fyddai'r Cyngor yn y sefyllfa gadarnhaol y mae ynddo heddiw.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, ac a oedd eleni yn ychwanegol i reoli argyfwng difrifol, sef y pandemig Covid-19. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.1.1. Yn gyffredinol, dylid cynnal a gwella perfformiad ac yn achos y dangosyddion sydd yn is na'r targed, dylid cymryd y camau lliniaru a nodwyd i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2021/22.

5.1.2. Cynnal gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelodau Etholedig cyn gynted â phosib i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer 2021/22.

5.1.3. Adolygu targedau 21/22 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy a lle bo'r pandemig coronafeirws yn effeithio ar dargedau, eu bod yn cael eu nodi a'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn.

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2020/21

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Tuedd Bl i Fl / Yr on Yr Trend | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) | CV-19 | - | - | 94.60% | - | 94.90% | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) | CV-19 | - | - | 94.40% | - | 93.90% | 94.40% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Coch / Red | - | 4.2% | 3% | ↓ | 2% | 1.10% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | 349 | - | 345.4 | 349.1 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 87.50% | 88.30% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 65.01% | 65% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | 75% | - | 75% | 82% |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | CV-19 | - | 28k | - | - | 530k | 553k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | → | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↑ | 43% | 90% | ↓ | 92% | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 50% | - | 75% | 70% |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 80% | - | 84% | 83% |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 94 | 75 | ↓ | 104 | 78 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 9 | 4 | ↑ | 7 | 9 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | 53 | - | 124 | 53 |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | → | 100% | 100% |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.1 | 12 | ↑ | 16.44 | 13.63 |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | CV-19 | - | - | 3 | - | 6.88 | 7.78 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 92.31% | 90% | ↑ | 91.30% | 90.91% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 50% | 35% | → | 50% | 30.87% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 60.36% | 62% | ↓ | 63.08% | 62.84% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.36 | 19 | ↑ | 17.57 | 17.35 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.20% | 93% | ↑ | 98.00% | 93.30% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↑ | 86.87% | 90% | ↓ | 89.62% | 86.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Melyn / Yellow | ↓ | 12.34% | 10.00% | ↓ | 8.39% | 9.52% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↓ | 32.00% | 10% | ↓ | 12.75% | 16.96% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 258 | 270 | ↓ | 224 | 241 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.56% | 95% | ↑ | 98.88% | 98% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | → | 87.74% | 90% | ↑ | 86.30% | 86.17% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | - | 74.74% | 70% | ↓ | 74.91% | 55.10% |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | - | 75.47% | 70% | ↓ | 77.70% | |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 169 | 170 | ↓ | 159.58 | 161.9 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | ↑ | 45.6 | 26 | ↓ | 21.9 | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.98% | 1.50% | ↓ | 1.42% | 1.30% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Melyn / Yellow | - | 92.00% | 95% | ↓ | 93.79% | 95.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | ↑ | 62.96% | 70% | ↑ | 67.26% | 69.86% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 0.95 | 1 | ↑ | 0.96 | 0.2 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 214kg | 240kg | ↓ | 206.17kg | 240kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | → | 79% | 90% | ↓ | 90% | 80% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 58% | 65% | ↓ | 78% | 74% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↑ | 74% | 80% | → | 74% | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Ambr / Amber | - | 4.60% | 3.0% | ↓ | 4% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | - | 3.80% | 4.0% | → | 3.80% | 3.80% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | - | 8.50% | 8.7% | ↓ | 8.20% | 8.70% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol      Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth

Melyn - o fewn 5% o'r targed      Gwyrdd - ar darged neu'n uwch      Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter      Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2020/21

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 43 | 67 | 67 | 76 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 6 | - | - | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | ↓ | 8 | - | - | 27 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 88% | 80% | 94% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↓ | 75% | 80% | - | 57% |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 24 | - | - | 44 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 104 | - | 136 | 62 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 662 | - | 618 | 513 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 79.4% | 80% | 82% | 81% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | | ↑ | 736 | - | 903 | 1052 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 33.5k | - | 15k | 8.2k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 58k | - | 10.8k | 4.7k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 18.5k | - | 13k | 11k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 7k | - | 6.5k | 5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 42k | 29.5k | 33k | 29.5k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 1.03M | - | 783k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2180 | | 2181 | 2243 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1214 | - | 1230 | 1252 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 6.68 | 9.75 | 9.4 | 10.34 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.94 | - | 4.2 | 4.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.74 | - | 5.2 | 5.66 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.23 | 9.5 | 7.98 | 12.21 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 1.45 | - | 4..17 | 4.97 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 2.78 | - | 3.81 | 7.24 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.34 | 9.5 | 9.61 | 9.57 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 1.37 | - | 4.58 | 5.26 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 2.97 | - | 5.03 | 4.31 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | ↓ | 6% | - | 9% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | | 80% | 80% | 86% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Gwyrdd / Green | | £142,146,320 | £137,789,926 | -3.06% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | | ↓ | £39,393,000 | £20,507,000 | -47.94% | - | - |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Coch / Red | → | £307,000 | £244,000 | -20.52% | - | - |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | ↑ | -£12,912,395 | -£10,282,383 | -20.37% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | | → | £4,836,000 | £0 | -100.00% | - | - |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | ↑ | £4,226,060 | £4,163,572 | -1.48% | - | - |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↑ | - | 83.57% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 98.48% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | - | 99.34% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 100.26% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 100.45% | - | - | - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **21 MEHEFIN 2021** |
| Pwnc | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 4 2020/21** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr | **MARC JONES** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BethanOwen2@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. Ar 10 Mawrth 2020, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2020/21 gyda gwariant gwasanaeth net o £142.146m i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm ar gyfer argyfyngau cyffredinol a chynlluniau wrth gefn eraill sy'n dod i gyfanswm o £1.115m. Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor gan £0.051m i £1.393m.

2. Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys arbedion gofynnol o £0.307m. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyllidebau gwasanaethau unigol ac adlewyrchir cyflawniad neu ddiffyg cyflawniad y rhain yn y (tan)/gorwariant net a ddangosir. Roedd y targed arbedion ar gyfer 2020/21 yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol oherwydd cynnydd o 3.8% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn gynnydd i'w groesawu yn dilyn nifer o flynyddoedd o ostyngiad mewn cyllid, a arweiniodd at dargedau arbedion sylweddol bob blwyddyn o dros £2m. Unwaith eto, mae'r setliad dros dro ar gyfer 2021/22 yn dangos cynnydd o 3.4% yng nghyllid Llywodraeth Cymru.

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £661m hyd yma i dalu'r costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan Gynghorau wrth ddelio â'r pandemig. Mae wedi mynd tuag at dalu costau prynu cyfarpar diogelu personol, cefnogi'r Sector Gofal Oedolion, darparu gwasanaethau ychwanegol i'r digartref, helpu gyda chostau trosglwyddo i weithio gartref, cyllido cost taliadau wythnosol i rieni plant a fyddai fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer incwm a gollwyd gan Gynghorau o ganlyniad i gau gwasanaethau. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi hawlio £6.104m mewn cyllid ychwanegol, y derbyniwyd £4.917m ohono. Mae'r gwariant net hyd yma a'r gwariant net rhagamcanol hyd at y flwyddyn yn ystyried y cyllid ychwanegol hwn.

4. Hefyd darparodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach heb ei neilltuo i dalu am y posibilrwydd o golli'r Dreth Gyngor, costau uwch cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, trawsnewid digidol a chostau arbedion cynlluniedig na ellid eu gweithredu oherwydd y pandemig. Derbyniodd y Cyngor gyfanswm ychwanegol o £2.16m

5. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yn danwariant o £4.204m. Mae hyn yn 2.96% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21.

6. Argymhellir:-

   **(i)** Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A â B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21;
   **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C;
   **(iii)** Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
   **(iv)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D;
   **(v)** Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae’r mater hwn wedi’i ddirprwyo i’r Pwyllgor Gwaith. |

| **Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **Dd – Asesu’r effaith bosibl (os yw’n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys | Bydd canlyniadau sefyllfa alldro derfynol 2020/21 yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Bydd lefel yr adnoddau sydd ar gael yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar anghenion tymor hir yr Ynys e.e. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Gyllideb Refeniw Flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae’i rhan yn drafftio’r ffordd hon ymlaen, yn cynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2020/21 ac ymgynghorir â nhw ar gyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y gallai’r penderfyniad hwn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghorwyd? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA ac mae'r sylwadau a wnaed wedi’u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae’r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed gan yr UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd yr adroddiad gan Banel Sgriwtini Cyllid ac adroddwyd arno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro 2020/21
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2020/21
- Atodiad C - Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2020/21
- Atodiad CH - Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21
- Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2020/21
- Atodiad DD - Gwybodaeth am fonitro Staff Asiantaeth 2020/21
- Atodiad E - Gwybodaeth am fonitro Ymgynghorwyr
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl am y gwariant ar Ymgynghorwyr

**Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cyllideb Refeniw 2020/21 (fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2020 ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2020).

**ATODAID A**

# MONITRO’R GYLLIDEB REFENIW – ALLDRO 2020/21

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor £8.760m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd ysgolion wrth gefn gwerth £0.197m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro ar gyfer 2019/20 at falans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol o £7.060m.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r trosglwyddiad 15 Mehefin o'r Balansau Cyffredinol, yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel rhan o'r broses o gau cyfrifon, mae 4 eitem wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon ym mis Gorffennaf 2021. Mae sefyllfa bresennol balansau Cyffredinol fel a ganlyn:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -7.060 | Y gronfa wrth gefn archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2020. |
| 15 Mehefin 2020 | 0.085 | Cynyddu’r gronfa wrth gefn a glustnodwyd o £100k i £185k i gyllido’n llawn y gwaith o beintio Pier Biwmares. |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth | -0.344 | Gwarged Yswiriant Trychineb. |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth | -0.022 | Ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â chynllunio. |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth | -0.072 | Grant nas defnyddiwyd mewn perthynas â phrydau ysgol. |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth | -0.008 | Grant cynnal a chadw Llwybr Arfordirol nas defnyddiwyd. |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **-7.421** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid ar ôl gwneud addasiadau’n dilyn archwiliad.** |

Yn ôl ffigyrau alldro, mae tanwariant o £4.204m ar gyfer 2020/21 ar gyllidebau y gellir eu rheoli a chyllidebau na ellir eu rheoli, sydd wedi cynyddu Cronfa Gyffredinol y Cyngor i £11.625m. Nid yw'r ffigwr hwn wedi'i archwilio a gall newid yn sgil addasiadau ôl-archwilio. Gosodwyd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 ar £142.146m ac mae'r lefel hon o falans cyffredinol yn cyfateb i 8.18% o gyllideb refeniw net 2020/21. Y ffigwr targed yw 5% (£7.1m) ac mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r ffigwr targed.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Nodir manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth yn Atodiad B. Tanwariant o £4.106m ar wasanaethau yw'r sefyllfa cyn archwilio ar 31 Mawrth 2021. Mae Cyllid Corfforaethol wedi tanwario ar eitemau y gellir eu rheoli gan £284k (Cynlluniau Wrth Gefn, Cyllid Cyfalaf a'r Dreth Gyngor), sy'n golygu bod cyllidebau y gellir eu rheoli gyda'i gilydd wedi tanwario o £4.389m. Mae cyllidebau na ellir eu rheoli wedi gorwario o £185k (Dreth Gyngor a Chyllid Cyfalaf), gan ddod â'r tanwariant cyffredinol i £4.204m.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiannau arwyddocaol (tua £100k neu uwch):-

**Tabl 1**

| **Gwasanaeth** | **(Tan)/ Gorwariant £'000** |
|---|---:|
| Dysgu | (1,338) |
| Diwylliant | (172) |
| Gwasanaeth Oedolion | (178) |
| Gwasanaethau Plant | (718) |
| Eiddo | (100) |
| Gwastraff | (423) |
| Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Hamdden a Chyrchfan) | (132) |
| Cyllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (224) |
| Adnoddau Dynol | (196) |
| Trawsnewid | (187) |
| Adnoddau | (166) |
| Argyfyngau Cyffredinol | (270) |
| Costau heb eu cyllidebu na ellir eu rheoli - yswiriant, costau pensiwn cyfalaf a dyledion drwg | 185 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiannau sy'n llai na £100k) | (285) |
| **Cyfanswm yr Amrywiant tros/(tan)wariant** | **(4,204)** |

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei roi i ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei gadw yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Gan fod mwyafrif yr ysgolion ar gau yn ystod tymor yr haf, heblaw am un wythnos pan oeddent ar agor, mae costau ysgolion yn is na'r arfer e.e. cyflenwadau a gwasanaethau, athrawon llanw a ffioedd arholiadau. Mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion bellach yn £4.015m o'i gymharu â £197k ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, derbyniodd ysgolion grantiau ym mis Mawrth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer talu treuliau a wnaed eisoes, sy'n golygu na wariwyd eu cyllideb graidd. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd rhywfaint o gyllid grant ar yr amod ei fod yn cael ei wario yn 2021/22. Gyda'r heriau sydd o'n blaenau yn dilyn pandemig Covid, bydd ysgolion yn defnyddio eu balansau yn 2021/22 a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn gostwng yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.

#### Addysg Ganolog

**3.1.2** Roedd tanwariant o £1.338m (28.47%) yn y gwasanaeth hwn yn ôl ffigyrau alldro. Mae llawer o'r cyllidebau o fewn Addysg Ganolog yn cael eu harwain gan y galw, felly, gydag ysgolion ar gau oherwydd Pandemig y Coronafeirws, roedd llai o alw fel y nodwyd isod yn 3.1.3.

**3.1.3** Mae nifer o achosion o or a thanwariant ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y mwyaf arwyddocaol ohonynt isod:-

- Roedd tanwariant o £209k yn y gyllideb ar gyfer prydau ysgol oherwydd nad oedd galw am brydau ysgol gan fod ysgolion ar gau am bedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol, y cyfnod clo byr dilynol a'r cyfnod clo presennol. Mae'r Cyngor yn sybsideiddio prydau ysgol, felly, mae llai o alw yn arwain at lai o wariant yn erbyn y gyllideb prydau ysgol.
- Bu llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol ers dechrau 2019/20, gyda deuddeg o blant yn gadael lleoliadau all-sirol oherwydd eu bod yn 16+ oed neu'n dychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn. Dim ond pum lleoliad newydd a gafwyd yn 2020/21, gan arwain at danwariant o £752k yma.
- Roedd tanwariant hefyd o £213k yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, roedd hyn yn rhannol oherwydd bod rhai o'r darparwyr ar gau yn ystod y pandemig, a olygai nad oedd unrhyw grantiau wedi'u dosbarthu.
- Roedd tanwariant o £121k yng nghyllidebau cludiant i'r ysgol ar ddiwedd y flwyddyn. Parhaodd y taliadau i ddarparwyr yn ystod y cyfnodau'r clo i sicrhau hyfywedd parhaus darparwyr gwasanaethau ond roedd y rhain ar gyfradd is na'r gyfradd arferol sy'n daladwy pan ddarperir y gwasanaeth.
- Roedd tanwariant o £136k yng nghyllidebau eithriadau cyrraedd hefyd. Roedd hyn yn cynnwys cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw a chyllidebau sy'n gysylltiedig â chludiant i'r ysgol nad oedd eu hangen.
- Mae rhai cyllidebau o fewn y gwasanaeth sydd â thanwariant cyffredinol a rhai â gorwariant. Y mwyaf amlwg yw Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Môn a Gwynedd ar y cyd oedd â gorwariant o £31k yn ogystal â Chlwb Gofal £51k, lle nad yw incwm wedi cyrraedd ei darged yn hanesyddol. Bu gorwariant o £24k yn Addysg Bellach, roedd hyn yn gysylltiedig â chostau pensiynau hanesyddol.

**3.1.4 Diwylliant**

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £172k (14.84%) yn y gwasanaeth hwn yn ôl ffigyrau alldro. Roedd yr Oriel wedi gorwario £8k. Gan ei fod wedi bod ar gau am rannau helaeth o'r flwyddyn ariannol oherwydd y cyfnodau clo cenedlaethol, mae cyfleoedd i'r siop a'r arddangosfeydd wedi bod yn gyfyngedig, er i'r rhan fwyaf o'r incwm a gollwyd gael ei adennill drwy gyllid Llywodraeth Cymru. Roedd tanwariant o £171k gan lyfrgelloedd, yn bennaf oherwydd swyddi gwag ac arbedion ar staff wrth gefn a chyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol tra bod y llyfrgelloedd wedi cau oherwydd Covid-19. Roedd tanwariant o £12k gan yr Adran Archifau hefyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, unwaith eto roedd hyn mewn perthynas â swydd wag.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd tanwariant o £178k (0.86%) yn y gwasanaeth yn ôl ffigyrau alldro.

**3.2.2** Dyma fanylion yr amrywiadau alldro:-

- ➢ Gwasanaethau i'r Henoed: Gorwariant o £531k am y flwyddyn. Mae elfennau amrywiol sy'n creu'r gorwariant, mae swyddi gwag mewn Asesu a Rheoli Gofal a swydd sy'n cael ei gyllido drwy'r Gronfa Trawsnewid Oedolion, sy'n creu tanwariant o £130k. Roedd gorwariant o £118k ym maes gofal preswyl ar ôl cynnwys Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac incwm ychwanegol o ran taliadau gohiriedig. Mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw. Mae hyn hefyd yn wir am y gyllideb gofal Nyrsio lle'r oedd gorwariant o £84k. Roedd gorwariant o £494k ym maes gofal cartref o ganlyniad i gynnydd yn y galw a chostau llefydd gwag yn Hafan Cefni £70k.

- Anableddau Corfforol: Gorwariant o £75k – mae'r tanwariant mwyaf yn ymwneud ag Asesu a Rheoli Gofal £66k o ganlyniad i swydd wag a chyllid grant ar gyfer swyddi eraill. Hefyd roedd tanwariant o £16k yn ymwneud ag offer ac addasiadau o ganlyniad i lai o gymhorthion a gwaith addasu oherwydd y pandemig. Roedd gorwariant o £134k ym maes Cymorth Cartref oherwydd cynnydd yn y galw. Hefyd roedd gorwariant o £41k ym maes Gofal Preswyl ar ôl cynnwys Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £132k.
- Anableddau Dysgu: Roedd gorwariant o £313k yn y gwasanaeth hwn – mae Gofal Preswyl wedi gorwario £216k, hyd yn oed ar ôl cynnwys Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Roedd y gorwariant o ganlyniad i alw ychwanegol am leoliadau cost uchel i unigolion ag anghenion gofal cymhleth. Gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw yw hwn ac mae'n comisiynu nifer fach o leoliadau costus, yn bennaf i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Roedd tanwariant o £151k ym maes Gofal Dydd o ganlyniad i gyllid ICF ychwanegol a gostyngiad yn y galw oherwydd cyfyngiadau Covid19 a gostyngiad yng nghostau contractau. Roedd gorwariant o £455k yn ymwneud â llety â chymorth a llety arall, hyd yn oed ar ôl dyrannu £129k o Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Roedd disgwyl arbedion o £300k yn y maes hwn oherwydd ymarfer tendro, fodd bynnag, ni weithredwyd hyn oherwydd Covid-19 ac mae wedi'i ohirio. Roedd tanwariant o £146k ym maes Gofal Cartref wrth i fwy o unigolion drefnu taliadau uniongyrchol a’u gofal cartref eu hunain a chafodd £103k o'r costau eu talu gan Grant Caledi Llywodraeth Cymru.
- Iechyd Meddwl: Roedd tanwariant o £197k yn y gwasanaeth – roedd tanwariant o £13k ym maes Gofal Preswyl, ar ôl derbyn Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw sydd, unwaith eto, yn cynnwys nifer fach o leoliadau costus. Roedd tanwariant o £218k ar Gymorth Cymunedol o ganlyniad uniongyrchol i swyddi gwag drwy gydol y flwyddyn. Roedd gorwariant o £13k gan Ofal Cartref a £69k gan Byw â Chymorth, yn ymwneud yn bennaf â chynnydd mewn costau lleoli oedolion a thanwariant o £30k yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau a £50k yn ymwneud ag Asesu a Rheoli Gofal - roedd y rhain o ganlyniad i swyddi gwag mewn costau staffio.
- Uned Ddarparu a Rheoli a Chymorth: Tanwariant o £591k. Roedd tanwariant o £311k gan unedau gofal cartref, sy'n gwneud iawn am y gorwariant ym maes Gwasanaethau i'r Henoed. Roedd tanwariant o £226k hefyd o ran Cartrefi Preswyl, roedd hyn o ganlyniad i ddefnyddio grant ICF o £200k mewn perthynas â llefydd gwag. Roedd y tanwariant a oedd yn weddill yn ganlyniad i swyddi gwag ar draws gwahanol elfennau'r uned a bod canolfannau dydd ar gau oherwydd cyfyngiadau Covid.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd tanwariant o £719k (6.50%) yng nghyllideb y gwasanaeth yn ôl ffigyrau alldro.

**3.3.2** Roedd tanwariant o £231k yng nghyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal, mae hyn o ganlyniad i danwariant o £765k ar leoliadau all-sirol a Chartrefi Grŵp Bach, lle mae nifer fach o achosion wedi'u cyllido gan gronfa caledi Covid19. Roedd gorwariant hefyd yng nghyllidebau gofal maeth a lleoliadau nad ydynt yn safonol o £317k a £201k yn y drefn honno. Mae tanwariant o £143k yng nghyllidebau'r adain Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol, mae hyn wedi deillio o gyllid ychwanegol gan y Gronfa Drawsnewid a defnydd gofalus o gyllid ICF.

Mae tanwariant o £211k yn ymwneud â chymorth i deuluoedd integredig oherwydd swydd wag a swyddi'n cael eu cyllido gan grantiau yn ogystal â chyllid ychwanegol o'r grant ICF o £66k. Mae gwasanaethau ieuenctid hefyd wedi tanwario £108k ar ei gyllideb, mae hyn wedi deillio o ddyrannu staff i swyddi a gyllidir gan grantiau.

**3.3.3** Yn ystod y pandemig, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi gweld gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth a gostyngiad bach yn nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod Lleol. Rhagwelir y bydd atgyfeiriadau'n cynyddu ac, yn wir, bydd angen i ni ddod â rhai plant i ofal o bosibl. Felly, mae angen i ni ystyried gofynion ariannol y pwysau yma ar gyfer y misoedd nesaf.

**3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Mae tanwariant o £37k (3.17%) yn y gwasanaeth hwn yn ôl ffigyrau alldro. Digartrefedd ac atal digartrefedd yw'r tanwariant mwyaf, £30k yn ymwneud â swyddi gwag staff.

**3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)**

**3.5.1.1** Roedd tanwariant o £132k (8.62%) yn y gwasanaeth, yn gyffredinol, yn ôl ffigyrau alldro.

**3.5.1.2** Roedd tanwariant o £15k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth. Roedd hwn yn gyfuniad o wahanol elfennau. Roedd tanwariant o £92k ar staffio oherwydd swydd wag y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fodd bynnag, roedd gorwariant o £55k ar staffio prosiectau Ynys Ynni. Roedd gorwariant hefyd ar ymgynghori a thanysgrifiadau oherwydd cyfraniadau a wnaed i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Oherwydd cyfnod clo cenedlaethol, nid oedd y Ganolfan Fusnes yn gallu gosod y swyddfeydd ac arweiniodd hyn at fod £15k y tu ôl i'w tharged o ran incwm.

**3.5.1.3** Roedd tanwariant o £53k yn yr adain Cyrchfan am y flwyddyn. Roedd tanwariant o £100k ym maes twristiaeth oherwydd cyfnodau clo cenedlaethol. Mae swydd y Rheolwr Cyrchfan sydd wedi bod yn wag ar hyd y flwyddyn bellach wedi'i llenwi, gan gyfrannu at y tanwariant o £57k ar staffio. Roedd gorwariant ar Gefn Gwlad a gorwariant o £11k ar AHNE oherwydd diffyg incwm. Roedd gorwariant hefyd o £36k ar yr adain Forwrol a gorwariant o £73k y cytunwyd arno i ailbeintio pier Biwmares.

**3.5.1.4** Mae'r adain Hamdden wedi cael ei tharo'n galed oherwydd bod pob canolfan hamdden ar gau ddechrau'r flwyddyn, yn ogystal â'r cyfnod clo byr a'r cyfnodau clo ar ôl y Nadolig. Yr alldro ar gyfer y canolfannau hamdden yw tanwariant o £64k. Cafodd y rhan fwyaf o'r incwm a gollwyd ei adennill drwy Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru, gyda £1.22m yn cael ei hawlio gan y Cyngor.

**3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £224k (10.14%) yn y gwasanaeth hwn yn ôl ffigyrau alldro.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £183k yng nghyllideb yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd gorwariant o £15k ar reoli Cŵn/Plâu, ni chyflawnwyd incwm ar gyfer yr adain hon, ond lleihawyd graddau'r gorwariant yn dilyn cyfraniad gan Lywodraeth Cymru o £15k am golli incwm o ganlyniad i gyfnodau clo cenedlaethol. Roedd tanwariant o £67k yng nghyllideb Iechyd yr Amgylchedd, oedd o ganlyniad i arbedion staff parhaus o £39k a chyfraniad o £30k o'r Gronfa Caledi yn ogystal â £33k tuag at incwm a gollwyd oherwydd y gyfnodau clo. Y tanwariant ar Gofrestryddion yw £24k. Derbyniwyd cyllid g Lywodraeth Cymru i dalu am y diffyg incwm a'r costau ychwanegol mewn staffio sy'n deillio o'r pandemig. Roedd tanwariant hefyd yng nghyllidebau safleoedd, trafnidiaeth a chyflenwadau a gwasanaeth. Roedd trwyddedu £64k yn is na'i gyllideb o ganlyniad i swyddi gwag staff, tanwariant cyffredinol ac yn sgil derbyn £20k drwy'r grant PDP. Roedd tanwariant o £43k yng nghyllideb Iechyd a Diogelwch Corfforaethol o ganlyniad i swydd wag.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £41k gan yr adain Gynllunio yn ôl ffigyrau alldro. Llwyddodd Rheoli Cynllunio i adennill costau. Rhagwelwyd y byddai Rheoli Adeiladu yn adennill costau, ond mae eu hincwm wedi gwella yn ystod chwarter olaf y flwyddyn gyda thanwariant o £27k. Mae tanwariant o £5k ar gyfer Polisi Cynllunio ac £11k ar gyfer Gweithredu a Chadwraeth yw deillio o dderbyn incwm grant a rheoli costau rhedeg yr adeiniau.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd tanwariant o £80k ar Briffyrdd a Chludiant. O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r Gwasanaeth wedi profi amrywiadau mawr mewn rhai meysydd o'i gyllideb o gymharu â blwyddyn ariannol arferol. Mae'r rhain yn fwyaf amlwg o dan Incwm Meysydd Parcio, Rheoli Fflyd a Chludiant Cymunedol Môn. Roedd tanwariant o fewn cymorth adrannol, ar staffio a oedd o ganlyniad i swydd wag a chludiant a chyflenwadau a gwasanaethau. Roedd tanwariant o £103k ar Gludiant Cyhoeddus oherwydd swyddi gwag am ran o'r flwyddyn a gostyngiad cyffredinol mewn gwariant, hefyd derbyniodd yr adain grantiau a ddefnyddiwyd cyn cyllidebau craidd. Roedd tanwariant o £11k ar Reoli Meysydd Parcio. Bu gostyngiad yn incwm Meysydd Parcio yn ystod y flwyddyn oherwydd bod llai o fodurwyr yn teithio yn ystod y pandemig a phenderfyniadau lleol i ddarparu meysydd parcio am ddim ar adegau penodol o'r dydd. Hawliodd y Cyngor £260k mewn incwm a gollwyd drwy Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ond nid oedd hyn yn ddigon i dalu am yr incwm a gollwyd o ganlyniad i benderfyniadau lleol. Roedd rheoli traffig hefyd wedi'i gorwario gan £15k yn gyffredinol.

**3.6.1.2** Roedd tanwariant o £32k yng nghyllideb rheoli strwythurau, yn bennaf oherwydd dwy swydd wag. Gwelwyd gostyngiad yn y Grant Diogelwch Ffyrdd 2020/21 ar gyfer Rheoli Diogelwch Ffyrdd, a olygai fod yn rhaid defnyddio cyllideb graidd ychwanegol er mwyn gyllido ei gweithgareddau, ond roedd tanwariant o £25k yn yr adain ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.6.1.3** Roedd tanwariant o £63k yng nghyllideb Gwaith Stryd oherwydd enillwyd mwy o incwm, roedd gorwariant o £100k yn y gyllideb gwaith ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cyfyngiadau Covid wedi golygu llai o alw ar fflyd y Cyngor ac, felly, mae'r incwm a ddisgwylir wedi tangyflawni i'r swm o £157k. Mae tanwariant o fewn cyllidebau eraill y Cyngor yn gwneud iawn am hyn. Roedd Cludiant Cymunedol Môn hefyd yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd llai o weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn sgil y pandemig.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £423k (5.27%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar alldro, roedd tanwariant o £284k gan Gwaredu Gwastraff, yn bennaf o ganlyniad i agor Parc Adfer a'r Cyngor yn elwa ar gyfradd is fesul tunnell o waredu ers dod yn bartner ym mhartneriaeth Parc Adfer gyda phedwar o awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru. Toiledau cyhoeddus £7k, Gwasanaethau glanhau £45k a Chynhyrchu Trydan Penhesgyn £59k – roedd y rhain i gyd hefyd wedi tanwario yn y flwyddyn.

**3.6.2.2** Roedd tanwariant o £105k mewn costau ailgylchu, mae'r tanwariant o ganlyniad i swydd wag, mwy o incwm o ddeunyddiau eildro a llai o wariant ar gyflenwadau a gwasanaethau, yn ogystal â'r ffaith bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i wneud cais am gyllid ychwanegol drwy'r Grant Economi Gylchol. Ym Mhenhesgyn, roedd yr orsaf drosglwyddo hefyd wedi tanwario £56k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn o ganlyniad i gau'r safle am ran o'r flwyddyn oherwydd y pandemig.

**3.6.2.3** Dyfarnwyd y contract casglu gwastraff newydd yn ystod 2020/21 a bydd yn weithredol o 2021-22. Roedd costau gweddilliol o £197k yn gysylltiedig â thendro a pharatoi ar gyfer y cytundeb newydd. Roedd y swm hwn yn fwy na'r cyllid penodol a ddyrannwyd i'r gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y gwariant hwn ac, felly, cyllidwyd y gwariant dros ben o gyllidebau heb eu defnyddio o fewn y Gwasanaeth. Mae Casglu Gwastraff yn gyffredinol wedi elwa o Grant Economi Gylchol sydd wedi golygu, cyn mynd i gostau ar gyfer y broses dendro, bod tanwariant o £64k gan yr adain am y flwyddyn.

**3.6.2.4** Mae'r tanwario ar ailgylchu wedi caniatáu i £250k gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig y Cyngor, a sefydlwyd i ddarparu cyllid i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan y Cyngor ar 8 Medi 2020. Dyfarnwyd tri Grant Economi Gylchol ychwanegol i'r Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ac adlewyrchir y grantiau yn y tanwariant a ddangosir uchod gan fod y grantiau wedi'u defnyddio cyn y cyllidebau craidd.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd tanwariant o £100k (9.75%) gan Wasanaethau Eiddo yn ôl ffigyrau alldro. Roedd tanwariant o £97k mewn rhenti, o ganlyniad i wahanol elfennau, megis arian annisgwyl untro ar gyfer rhent wedi'i ôl-ddyddio ac yn sgil adolygu rhenti nifer o fân-ddaliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd tanwariant o £34k yng nghyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd y cyfnodau clo yn ystod y flwyddyn. Roedd costau cyfleustodau hefyd £33k yn is na'r gyllideb oherwydd llai o ddefnydd o adeiladau'r Cyngor a mesurau effeithlonrwydd ynni. Roedd tanwariant o £26k yn y gwasanaethau glanhau ac eithrio elfennau sy'n gysylltiedig â Covid, oherwydd materion yn ymwneud â staffio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ailbrisio gwerth ardrethol prif bencadlys y Cyngor sydd wedi gostwng yr ardrethi busnes gan £32k. Cyfanswm tanwariant cyffredinol arall o fewn y Gwasanaeth oedd £35k.

**3.6.3.2** Mae gorwariant o £135k ar ffioedd proffesiynol cyfalafol, sy'n deillio o oedi yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn rhannol oherwydd y cyfnod clo. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf o fewn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi lleihau'r gwaith sy'n ennill ffioedd yn y gwasanaeth Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu datblygu.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £470k gan y gwasanaeth Trawsnewid yn ôl ffigyrau alldro.

**3.7.1.1** Roedd tanwariant o £196k (14.56%) gan Adnoddau Dynol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd cyfanswm y swyddi gwag i gyfrif am danwariant o £45k. Roedd tanwariant o £152k gan hyfforddiant canolog. Y rheswm am hyn yw bod Covid-19 wedi atal yr hyfforddiant arferol rhag digwydd.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £87k (3.07%) gan yr adain TGCh ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol, mae cyllidebau meddalwedd wedi bod yn annigonol ac roedd gorwariant o £135k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, ond defnyddiwyd y tanwariant ar benawdau cyllideb eraill o fewn y gwasanaeth i dalu'r costau ychwanegol hyn. Mae'r adain TGCh wedi ymateb i angen y Cyngor i drawsnewid ei wasanaeth. Mae eu gwariant cyllidebol wedi'i ddylanwadu gan ofynion y Cyngor i allu caniatáu i'r staff weithio o bell yn hytrach na'u patrymau gwariant arferol. Er enghraifft, mae ehangu trwyddedau Citrix er mwyn gallu gweithio gartref yn eang yn ystod y cyfnod clo thu hwnt, wedi cynyddu pwysau cyllidebol ymhellach, er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Cyngor drwy ddarparu cyllid o 50% tuag at y costau uwch hyn. Hefyd roedd tanwariant o £13k gan Gyswllt Môn.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £187k (22.16%) gan yr adain Trawsnewid Corfforaethol yn ôl ffigyrau alldro. Roedd tanwariant ym mhob maes o’r gyllideb, a'r mwyaf arwyddocaol oedd tanwariant o £86k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd. Roedd tanwariant o £67k gan Gyswllt Môn, yn bennaf ar gostau staffio, ac roedd gwariant craidd Trawsnewid Corfforaethol £34k yn is na'r gyllideb, unwaith eto, yn bennaf oherwydd newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Cyllideb y swyddogaeth Adnoddau yw £166k (5.25%) yn ôl ffigyrau alldro.

**3.8.2** Roedd tanwariant o £17k gan Refeniw a Budd-daliadau am y flwyddyn. Roedd tan a gorwariant amrywiol o fewn y gyllideb a gyfrannodd at y tanwariant cyffredinol. Roedd tanwariant yng Nghostau Llys o ganlyniad i'r pandemig, ond cafodd hyn ei liniaru gyda chyfraniadau o £58k gan Lywodraeth Cymru. Roedd gorwariant o £57k gan y Gwasanaeth Cyfrifeg, yn bennaf oherwydd costau staffio a diffyg hanesyddol yn y gyllideb taliadau banc. Roedd ad-dalu costau staff o grantiau £21k y tu ôl i'r targed oherwydd bod y tîm grantiau wedi’i adleoli i wneud gwaith yn gysylltiedig â Covid-19, er bod y golled hon wedi'i gwrthbwyso'n rhannol gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu costau prosesu grantiau busnes Covid. Roedd tanwariant o £39k gan Archwilio Mewnol o ganlyniad i swyddi gwag staff £51k, ond defnyddiwyd £12k o'r gyllideb hon i dalu costau gwasanaethau archwilio allanol arbenigol. Roedd tanwariant o £163k gan yr adain Gaffael oherwydd mentrau prynu, h.y. cyllidebau prynu canolog ac ad-daliadau cardiau caffael.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd y swyddogaeth wedi tanwario £83k (4.96%) yn ôl ffigyrau alldro, sydd ychydig yn wahanol i'r rhagolygon yn chwarter 3. Fodd bynnag, dyfarnwyd Grant Diwygio Etholiadol i'r adran lle'r oedd amser staff yn gallu cael ei osod yn erbyn y grant.

**3.9.2** Roedd gorwariant o £3k gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n well na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 3, a hynny o ganlyniad i adennill lefelau incwm ar ôl y cyfnod clo yn chwarter 4.

**3.9.3** Roedd tanwariant o £60k gan y Gwasanaethau Etholiadol yn sgil derbyn Grant Diwygio Etholiadol lle defnyddiwyd cyllid grant cyn cyllid craidd. Roedd tanwariant o £33k hefyd gan Wasanaethau'r Pwyllgorau am y flwyddyn, unwaith eto'n rhannol oherwydd y defnydd o grant yn hytrach na chyllid craidd a swydd wag oherwydd secondiad. Roedd gorwariant o £8k gan y Gwasanaeth Cyfieithu o ganlyniad i ddefnyddio cyfieithwyr allanol.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd gorwariant o £62k (2.01%) yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd yn ôl ffigyrau alldro.

**3.10.2** Gyda'i gilydd roedd tanwariant o £59k ar Gymorth a Threuliau Aelodau. Roedd dwy swydd wag ymhlith yr Aelodau etholedig ac mae cyfyngiadau pandemig wedi arwain at danwario sylweddol ar gyllidebau teithio, hyfforddi a chynadleddau.

**3.10.3** Mae'r cyllidebau corfforaethol yn gyffredinol yn dangos bod gorwariant o £127k. Roedd tanwariant o £25k ar yr Ardoll Brentisiaethau, mae tanwariant hefyd mewn ffioedd archwilio grantiau a thaliadau pensiwn hanesyddol i'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, bu £20k o orwariant ar Gwnsela Staff, gan nad oes cyllideb ar gyfer y gwariant hwn. Yr oedd cyfraniadau pensiynau eilaidd £149k yn uwch na'r disgwyl oherwydd prisiad actiwaraidd diwygiedig a chafwyd addasiad grant blwyddyn flaenorol hefyd sy'n cyfrif fel gorwariant yng nghyfrifon eleni.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd y swyddogaeth wedi tanwario £47k (7.66%) yn ôl ffigyrau alldro. Mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol yn dilyn ailstrwythuro'r rheolwyr yn 2019/20 a thanwariant bach ar drafnidiaeth a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

**4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Roedd tanwariant o £377k yn gysylltiedig â Chyllid Corfforaethol, gan gynnwys cyllidebau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) a Budd-dal Tai (HB), ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd gorwariant o £142k ar gyllidebau CTRS / HB oherwydd cynnydd yn nifer yr hawlwyr o ganlyniad i ddiweithdra cynyddol. Fodd bynnag, darparodd Llywodraeth Cymru £228k o gyllid ychwanegol ac, o ganlyniad, roedd y ffigyrau alldro terfynol ar gyfer y gyllideb hon yn orwariant o £68k.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, roedd y rhain yn dod i £1,115k. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, a adawodd £270k heb ei ddyrannu. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r gyllideb wrth gefn, sy'n dangos bod £961k eisoes wedi'i drosglwyddo i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys 3 elfen: y swm a neilltuwyd ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - MRP), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau sy'n weddill a llog dderbynnir ar falansau arian parod a gedwir yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Roedd y ffaith bod prosiectau cyfalaf wedi'u gohirio, yn enwedig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod gostyngiad yng ngofynion benthyca'r Cyngor sydd, yn ei dro, wedi arwain at gostau llog ac MRP is. Yn ystod y pandemig, cadwodd y Cyngor falans arian parod uwch na'r arfer, er bod adenillion buddsoddi yn isel iawn (llai na 0.2% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). O ganlyniad, roedd tanwariant o £104k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf hefyd.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2019. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae Covid-19 hefyd yn effeithio ar gasglu'r Dreth Gyngor a gwnaed cynnydd yn y ddarpariaeth dyledion drwg i adlewyrchu'r effaith hon. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi gweld tua 200 eiddo yn trosglwyddo o eiddo domestig i eiddo hunanarlwyo ar y gofrestr Trethi Busnes. Gellir ôl-dyddio'r trosglwyddiadau hyn nifer o flynyddoedd ac mae'r Cyngor nid yn unig yn colli Dreth Gyngor y flwyddyn gyfredol ond rhaid iddo hefyd ad-dalu unrhyw daliadau a wneir yn ôl i'r dyddiad trosglwyddo perthnasol, mae hyn yn arwain at golli incwm sylweddol yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i'r pwyntiau a nodwyd uchod, roedd incwm craidd y Dreth Gyngor £834k yn is na'r gyllideb.

**5.2** Mae premiwm y Dreth Gyngor wedi'i gynllunio i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, felly, mae perygl y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hon, mae'r sylfaen drethi ar gyfer eiddo premiwm wedi'i gosod ar 80% ac, os na fydd nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes wedi lleihau'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er gwaethaf trosglwyddo eiddo, yn gyffredinol roedd nifer yr eiddo sy'n ail gartrefi yn parhau'n weddol gyson ac, o ganlyniad, dangosodd cyllideb premiwm y Dreth Gyngor warged o £501k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**5.3** Mae cyfradd casglu'r Dreth Gyngor 2020/21 wedi gostwng ac, er na fydd hyn yn effeithio ar y gyllideb refeniw gyffredinol yn 2020/21, bydd yn arwain at angen i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn y dyfodol wrth i'r broses adennill ddod i ben a nifer uwch o drethdalwyr yn methu â thalu'r ddyled sy'n weddill. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y broblem hon ac wedi rhoi £769k o gyllid ychwanegol i'r Cyngor er mwyn helpu i liniaru colli incwm. Cedwir yr arian hwn mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd a chaiff ei ryddhau yn y dyfodol i wrthbwyso unrhyw gynnydd sy'n ofynnol yn y ddarpariaeth dyledion drwg.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2020/21

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £307k o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2020/21. Mae £244k o'r arbedion hyn wedi eu cyflawni, fodd bynnag, ni chyflawnwyd £63k o arbedion. Bydd y diffyg mwyaf sylweddol yn Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, lle mae'r £57k o arbedion yn ymwneud ag incwm meysydd parcio wedi bod yn anodd eu sicrhau oherwydd oedi a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws. Ceir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £807k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2020/21. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes at eu cwblhau nac eraill, er bod y cynnydd i gwblhau'r prosiectau wedi'i effeithio gan bandemig y Coronafeirws. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2021/22 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaethau ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £715k ar staff Asiantaeth. Roedd y rhain, ar y cyfan, yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn ymwneud â swyddi gwag. Roedd £279k yn ymwneud â chostau o fewn y Gwasanaethau Plant, i dalu am swyddi gwag, a £146k yn ymwneud â staff cyflenwi ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion. Gwariodd y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff £210k ar gyfer asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £681k ar Ymgynghorwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, gyda £344k yn cael ei gyllido drwy grant neu ffynonellau allanol. Ceir crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth a manylion ychwanegol y gwariant yn Atodiad E.

## 9. Cyllid Grant Covid-19 gan Lywodraeth Cymru hyd yma

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru i dalu am gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws a cholli incwm, a hebddo byddai'r ffigyrau alldro yn dangos gorwariant sylweddol. Dengys Tabl 2 isod fod y Cyngor wedi hawlio £6.196m am gostau ychwanegol yn deillio o'r pandemig, nid oedd £92k o hyn yn gymwys ond ystyriwyd bod £6.104m yn gymwys a mae £4.917m eisoes wedi'i dalu i'r Cyngor, gan adael balans o £1.186m yn weddill ar gyfer chwarter 4 a delir yn ystod 2021/22.

**Tabl 2 - Gwariant cysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill 2000 a Medi 2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Gwasalaethau Cymdeithasol Oedolion | Marwolaethau Gormodol | Prydau Ysgol am Ddim | Cyffredinol | Digartrefedd | Glanhau Ysgolion | Cymorth Cymunedol | TG Gweithio Gartref | Hunan Ynysu | Ychwanegiad SSP | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 1,784 | 33 | 1,100 | 1,896 | 910 | 114 | 69 | 166 | 82 | 43 | 6,196 |
| Gwrthodwyd | **1** | **0** | **24** | **21** | **0** | **0** | **36** | **9** | **0** | **2** | **92** |
| Balans Dyledus | **1,783** | **33** | **1,076** | **1,875** | **910** | **114** | **33** | **157** | **82** | **41** | **6,104** |
| Talwyd | **1,645** | **29** | **864** | **1,449** | **570** | **94** | **33** | **159** | **66** | **6** | **4,917** |
| Balans yn weddill | **138** | **4** | **212** | **426** | **339** | **20** | **0** | **-2** | **15** | **34** | **1,186** |

### 9.2 Incwm a gollwyd oherwydd Cyfyngiadau Covid-19 a Gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae incwm y Cyngor wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, fel cau'r canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd meysydd parcio yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, y cyfnod clo byr a'r cyfnodau clo cyn ac ar ôl y Nadolig. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Mae'r Cyngor wedi hawlio £2.369m gan Lywodraeth Cymru, y mae £0.020m ohono wedi'i wrthod. Mae £2.310m wedi'i dalu hyd yma, a disgwylir i £0.039m arall gael ei dalu dros yr wythnosau nesaf. Dangosir crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 31 Mawrth 2021 isod yn Nhabl 3:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Colli Incwm o Wasanaethau yn ystod y Pandemig**

| Crynodeb | Morwrol | Amgueddfeydd | Hamdden | Mannau Agored | Addysg | Gwaredu Gwastraff | Meysydd Parcio | Gwasanaethau Oedolion | Gwarchod y Cyhoedd | Incwm Rhenti | Marchnadoedd a Chlybiau Teithio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 37 | 173 | 1,220 | 6 | 442 | 2 | 260 | 33 | 135 | 49 | 12 | 2,369 |
| Gwrthodwyd | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 0 | 0 | 0 | 20 |
| Balans Dyledus | 37 | 173 | 1,220 | 6 | 442 | 2 | 260 | 13 | 135 | 49 | 12 | 2,349 |
| Talwyd | 37 | 173 | 1,215 | 6 | 442 | 2 | 260 | 13 | 101 | 49 | 12 | 2,310 |
| Balans yn Weddill | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 | 0 | 0 | 39 |

## 10. Casgliad

**10.1** Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd arferol y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau yn 2020/21 ac, o'r herwydd, nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Mae'r tanwariant o £4.197m i'w groesawu ac mae'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen, ond ni fyddai wedi'i gyflawni heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r galw am wasanaethau yn y dyfodol yn hysbys eto ac, er bod cyfeiriad y pandemig byd-eang yn edrych yn ffafriol, bydd yn her ymateb i'r galwadau yn dilyn y pandemig. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn y galw am nifer o wasanaethau'r Cyngor yn 2021/22 wrth i'r cyfnod clo lacio a dychwelyd i normalrwydd. Ni fydd yn syndod os bydd Gwasanaethau'n gorwario eu cyllidebau yn ystod 2021/22, bydd hyn yn cael ei gyllido o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

**10.2** Mae angen gwneud rhagor o waith i fodelu'r effaith a bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, cyn dechrau proses cyllideb 2022/23.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagdybedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021 – Alldro

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Alldro Amodol | Cyfanswm Alldro Amodol - Amrywiad | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) | Gwahanaiaeth I Chw 3 – elfenau yr oedd modd eu rheoli gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addysg gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllidebau datganoledig ysgolion | 47,621 | 47,621 | - | - | - | - |
| Addysg Ganolog | 4,758 | 3,415 | (1,343) | (5) | (1,338) | (1,278) |
| Diwylliant | 1,186 | 1,010 | (176) | (4) | (172) | 54 |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 27,160 | 26,927 | (233) | (55) | (178) | (295) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 10,971 | 10,258 | (713) | 5 | (718) | (216) |
| | | | | | | |
| **Tai** | 1,168 | 1,131 | (37) | 0 | (37) | (25) |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,228 | 6,150 | (78) | 2 | (80) | (17) |
| Eiddo | 984 | 888 | (96) | 4 | (100) | 141 |
| Gwastraff | 8,030 | 7,607 | (423) | 0 | (423) | (290) |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,922 | 1,790 | (132) | (1) | (131) | (25) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,209 | 1,985 | (224) | 0 | (224) | (63) |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,346 | 1,150 | (196) | 0 | (196) | (185) |
| TGCh | 2,799 | 2,713 | (86) | 0 | (86) | 136 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 853 | 664 | (189) | (2) | (187) | (152) |
| | | | | | | |
| **Adnoddau** | 3,164 | 2,998 | (166) | 0 | (166) | (96) |
| | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Alldro Amodol | Cyfanswm Alldro Amodol - Amrywiad | Amrywiad Amodol nad oedd modd ei reoli (eithriadau) | Amrywiad Amodol yr oedd modd ei reoli (dim eithriadau) | Gwahanaiaeth I Chw 3 – elfenau yr oedd modd eu rheoli gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Busnes y Cyngor** | 1,614 | 1,534 | (81) | 2 | (83) | (13) |
| | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,033 | 3,094 | 61 | 0 | 61 | 61 |
| | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 626 | 578 | (48) | 0 | (48) | (43) |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **125,672** | **121,513** | **(4,160)** | **(54)** | **(4,106)** | **(2,306)** |
| | | | | | | |
| Ardollau | 3,599 | 3,599 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 70 | 78 | 8 | 0 | 8 | 21 |
| Cyllid Cyfalaf | 7,106 | 7,002 | (104) | 0 | (104) | (3) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 270 | 0 | (270) | 0 | (270) | 0 |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogi Canolog CRT | (700) | -892 | (192) | (192) | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 6,128 | 6,060 | (68) | 0 | (68) | 142 |
| Na ellir ei reoli | 1 | 249 | 249 | 249 | 0 | 400 |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **16,474** | **16,096** | **(377)** | **57** | **(434)** | **560** |
| **Cyfanswn Cyllideb 202021** | **142,146** | **137,609** | **(4,537)** | **3** | **(4,540)** | **(1,746)** |
| | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (24,313) | (24,313) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dreth Gyngor | (39,748) | (38,914) | 834 | 182 | 652 | 556 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (1,393) | (1,894) | (501) | 0 | (501) | (282) |
| Grant Cymorth Refefeniw | (76,692) | (76,692) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2020/21** | **(142,146)** | **(141,813)** | **333** | **182** | **151** | **274** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm alldro yn cynnwys effaith y cyllido** | **0** | **(4,204)** | **(4,204)** | **185** | **(4,389)** | **(1,472)** |

**<u>Crynodeb o Sefyllfa Alldro y Cyllidebau wrth Gefn 2020/21</u>**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygiedig hyd yma<br>£ | Wedi ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwumo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 371,550 | (167,610) | 203,940 | - | 203,940 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 150,000 | (91,637) | 58,363 | - | 58,363 | - |
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | 708,770 | (701,570) | 7,200 | - | 7,200 | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,230,320** | **-960,817** | **269,503** | **-** | **269,503** | **-** |

**Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21**

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Swm y Dyranwyd 2020/21 £ | Gwariant 2020/21 £ | Cyllideb Weddilliol 2020/21 £ | Balans ar 31 Mawrth 2021 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a Gweithredu System CRM | 255,000 | 100,132 | 53,456 | 46,676 | 46,676 | Mae'r CRM yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth gyda rhan 2 o grantiau cymorth busnes yn cael eu gweinyddu drwy'r system yn ogystal â system archebu ar gyfer mynychu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae'r CRM wedi cael ei integreiddio â'r llinell o system fusnes a ddefnyddir gan y contractwr a benodir i'r contract casglu gwastraff ar gyfer yr Awdurdod ac mae'n fyw.<br><br>Mae gwaith wedi cychwyn ar brosesau busnes Priffyrdd, fel enwebwyd gan y Bwrdd Trawsnewid. Mae gwiriad synnwyr a thwtio cyffredinol o ffurflenni cyfredol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. |
| TG / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a Gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 13,583 | 0 | 13,583 | 13,583 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwydnwch Systemau Cynllunio | Systemau Cynllunio newydd wedi'u hawtomeiddio | 118,000 | 15,374 | 0 | 15,374 | 5,687 | Mae gwaith ar y gweilll i gynnwys modiwl Gorchymyn Cadw Coed newydd i'r system.<br><br>Mae'r elfen Ash Die Back ar stop ar hyn o bryd gan fod 'demos' pellach hefo cyflenwyr amgen a chyfranogiad TG wedi eu cynnal ond ni waned penderfyniad hyd yma. Oherwydd problemau hefo elfen ail-olygu yn Enterprise 5.20, gwnaed penderfyniad ar lefel uchel i ganslo'r uwchraddiad yma a symud ymlaen i Enterprise 5.30 gyda dyddiad 'mynd yn fyw' nawr wedi ei drefnu ar gyfer |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Swm y Dyranwyd 2020/21<br>£ | Gwariant 2020/21<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2020/21<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2021<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Tachwedd 2021. Yn ogystal, mae gwaith wedi ail-gychwyn ar ddad-ddyblygu data o fewn y system Salesforce. |
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac sy'n caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (ApMon ac ati) i gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 42,799 | 5,956 | 36,843 | 36,843 | Mae ymrwymiadau llawn bellach wedi'u gwneud ac o fewn cyllidebau'r bidiau. Ailddechreuodd y gweithredu yn ystod Chwarter 2 ar ôl i gyfnod furlough rhai staff prosiect Capita ddod i ben, ond dim ond yn Chwarter 3 y cododd momentwm. Mae profion ar y ffeil allforio GL newydd y gellid eu gwneud o bell bron wedi'u cwblhau ac mae trefniadau ar waith i gwblhau'r profion na ellir eu gwneud o bell. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoniadau/e-ffurflenni incwm awtomataidd, gan gynnwys prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomataidd pellach yn cael ei wneud drwy ddatblygu AYA i alluogi diweddariad incwm awtomataidd i'r lejer drwy reoliincwm ar gyfer gwasanaethau mewnol fel hamdden, addysg a phriffyrdd ac yn allanol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd y gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid-19 wedi gohirio gweithredu a gwasanaethau mewnol yn aildendro prosesau meddalwedd penodol. Bydd gweddill balans y gyllideb yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl sy'n weddill. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad - Addysg | Gweithredu'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd | 67,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br><br>£ | Swm y Dyranwyd 2020/21<br><br>£ | Gwariant 2020/21<br><br>£ | Cyllideb Weddilliol 2020/21<br><br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2021<br><br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad Oriel Môn | Gwefan i'r Oriel | 20,000 | 11,474 | 0 | 11,474 | 11,474 | Bu rhywfaint o oedi gyda'r cwmni a Covid-19. Mae'r wefan a'r siop ar-lein a'r system EPOS bellach i gyd yn fyw ac mae'r anfonebau sy'n weddill wedi cael eu talu. |
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomataidd | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 50,000 | 68,850 | -18,850 | 30,280 | Mae dau o bobl wedi eu recriwtio i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro ar Raddfa 5 ac maent yn eu swyddi ar hyn o bryd. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 cyngor yng Nghymru. | £10,000 y flwyddyn 4.5 mlynedd | 10,000 | 0 | 10,000 | 45,000 | Dim cynnydd i'w adrodd yn 2020/21. Oherwydd Covid-19 a phwysau ar Ddiogelu'r Cyhoedd, ni fu unrhyw allu i fwrw ymlaen. Fe argymhellir fod y cyllid yma'n cael ei ddychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **243,362** | **128,262** | **115,100** | **189,543** | |

**Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2020/21**

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21<br>£'000 | Wedi eu cyflawni 2020/21<br>£'000 | Heb eu cyflawni 2020/21<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 68 | 11 | 57 | Ni fydd £10k o arbedion yn cael eu cyflawni drwy leihau cost rhedeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sy'n rhatach ar danwydd a gwella gweithdrefnau gweinyddol i leihau amser segur cerbydau. Mae hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn nefnydd cerbydau fflyd oherwydd Covid-19. Derbyniwyd pedwar cerbyd LPG ym mis Gorffennaf a fydd yn rhatach ar danwydd, ond ni welwn y budd o'r rhain tan y flwyddyn ariannol nesaf. Nid yw'n glir, ar hyn o bryd, pryd y bydd y galw am gerbydau Fflyd yn gwella. Mae'r Gwasanaeth wedi amsugno'r golled yn ystod y flwyddyn ariannol hon drwy leihau gwariant eraill. |
| | | | | Mae arbediad o £47k drwy gynyddu ffioedd meysydd parcio hefyd yn annhebygol o gael ei gyflawni. Mae'r arbediad yn dibynnu ar:<br>1. Gweithredu opsiwn dim arian parod ond gohiriwyd hyn tan 3 Awst oherwydd Covid-19.<br>2. Cynnydd mewn prisiau - caewyd meysydd parcio yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol oherwydd cyfyngiadau Covid. Ailagorwyd pob un ohonynt wedyn ond penderfynodd EMRT beidio â gweithredu taliadau mewn meysydd parcio trefol tan ddiwedd mis Medi er mwyn annog defnydd o Ganol Trefi. Yn ogystal, mae'r Grŵp Llywio Parcio wedi penderfynu peidio â gweithredu taliadau newydd tan 2021/22. Gan mai penderfyniadau lleol yw'r rhain, ni fydd colli incwm yn gymwys yn llawn ar gyfer grant Covid-19 Llywodraeth Cymru.<br>Nod y Gwasanaeth fydd amsugno'r diffyg drwy danwariant mewn mannau eraill o fewn y gyllideb Priffyrdd. |
| | | | | Mae arbediad o £11k ar y trywydd iawn i'w weithredu'n llawn drwy ail-drefnu rota tu allan i oriau y tîm atgyweiriadau eiddo. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 65 | 59 | 6 | Gweithredwyd arbediad o £22k yn llawn drwy leihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Cyflawnwyd hyn yn sgil y buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio. |
| | | | | Nid yw y cynnydd disgwyliedig o £1k mewn incwm wedi cael ei gyflawni oherwydd y pandemig cyfredol a'i effaith ar ymgynnull mewn grwpiau a digwyddiadau. |
| | | | | Mae £37k o arbedion drwy ddileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor wedi cael ei gyflawni'n llawn. |
| | | | | Cynyddwyd y ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau morwrol, er nad yw'r arbediad o £5k wedi gael ei gyflawni oherwydd cyfyngiadau'n gysylltiedig â Covid-19 a byrhau'r tymor agor. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21 £'000 | Wedi eu cyflawni 2020/21 £'000 | Heb eu cyflawni 2020/21 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Tai | 101 | 101 | 0 | Cyflawnwyd arbediad o £27k drwy ddileu swydd wag Swyddog Datblygu Strategol. |
| | | | | Mae arbediad o £4k drwy leihau cost cefnogaeth weinyddol i'r Pennaeth Tai wedi cael ei gyflawni. |
| | | | | Bydd arbediad o £36k drwy gyfalafu costau staffio ynghlwm â darparu grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi cael ei gyflawni. |
| | | | | Mae arbedion o £19k a gynigiwyd drwy addasu'r costau a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn debygol o gael eu cyflawni yn yr adolygiad diwedd blwyddyn. |
| | | | | Nododd adolygiad o gyllideb y gwasanaeth gyllidebau o £15k nad oedd yn cael eu defnyddio ac maent bellach wedi cael eu dileu. Nid oedd gorwariant ar ddiwedd Ch2, felly, mae'r arbediad hwn wedi cael ei gyflawni. |
| Trawsnewid | 5 | 5 | 0 | Nodwyd arbediad o £5k drwy ddileu cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn a ffonau symudol nad oes fawr o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. Ni nodwyd unrhyw arbedion llinellau pellach hyd yma ond, os na fyddant yn cael eu canfod, bydd yr arbedion yn cael eu canfod o feysydd eraill yng nghyllideb yr adran, fel yn 2019/20. |
| Adnoddau | 60 | 60 | 0 | Cynigwyd arbediad o £10k drwy ostwng cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddiadau yn y systemau Cyflogres a Budd-daliadau Tai sydd wedi caniatáu i wybodaeth gael ei drosglwyddo'n electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. |
| | | | | Disgwylir y bydd dull corfforaethol o brynu rhai nwyddau yn rhyddhau arbediad o £50k. Mae'r gwariant yn Ch4 o fewn y gyllideb. |
| Busnes y Cyngor | 8 | 8 | 0 | Disgwylir i leihau costau cynnal digwyddiadau Dinesig gyflawni arbediad o £8k ar gyfer y flwyddyn. Mae gwariant yn Ch4 o fewn y gyllideb. |
| **Cyfanswm** | **307** | **244** | **63** | |

**ATODIAD DD**

**Costau Asiantaeth rhwng Ionawr a Mawrth 2021**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ag Adfywio | 23,358 | Grant | Dros Dro | Methu recriwtio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd â chymwysterau llawn ar gyfer samplu bwyd |
| | 12,585 | Grant | Dros Dro | Capasiti sy'n deillio o waith ychwanegol mewn perthynas â Grantiau Busnes Covid |
| | **35,943** | | | |
| Ysgolion | 1,843 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | 1,030 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Cyflenwi |
| | **2,873** | | | |
| Gwastraff | 83,686 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Staff tymor byr – nid yw staff ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 79,085 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 47,500 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics AD |
| | **210,271** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 58,021 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 186,606 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 34,455 | Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **279,082** | | | |
| Eiddo | 3,603 | Arian Wrth Gefn | Dros Dro | Prisiad ar gyfer cyfrifon 2020/21 |
| | **3,603** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 9,813 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Prosiect DOLS |
| | 119,284 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 17,171 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **146,268** | | | |
| Trawsnewid | 36,631 | Cyllideb staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Mamolaeth |
| | **36,631** | | | |
| **Cyfanswm** | **714,671** | | | |

**ATODIAD E**

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Alldro 2020/21**

| **Crynodeb o Wariant Ymgynghori fesul Gwasanaeth** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch1**<br>**£** | **Ch2**<br>**£** | **Ch3**<br>**£** | **Ch4**<br>**£** | **Cyfanswm 2020/21**<br>**£** |
| Addysg Ganolog | 8,685 | 10,033 | 875 | 3,000 | **22,593** |
| Diwylliant | 0 | 0 | 1,950 | 8,548 | **10,498** |
| Economaidd ac Adfywio | 1,125 | 36,501 | 54,255 | 255,177 | **347,058** |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 0 | 17,655 | 6,428 | 61,182 | **85,265** |
| Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 929 | **929** |
| Gwastraff | 12,883 | 40,257 | 11,033 | 15,354 | **79,527** |
| CRT | 0 | 1,200 | 2,500 | 10,110 | **13,810** |
| Tai | 0 | 0 | 600 | 0 | **600** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 0 | 0 | 12,078 | **12,078** |
| Gwasanaethau Plant | 2,466 | 56 | 4,811 | 25,763 | **33,096** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 630 | 1,386 | 13,122 | 4,785 | **19,923** |
| Busnes y Cyngor | 11,847 | 2,582 | 0 | 0 | **14,429** |
| Adnoddau | 9,515 | 0 | 8,450 | 23,500 | **41,465** |
| | | | | | |
| **Total** | **47,151** | **109,671** | **104,023** | **420,426** | **681,271** |
| Cyllidir gan: | | | | | |
| Cyllideb Graidd | 46,016 | 72,640 | 40,379 | 178,127 | **337,162** |
| Grant | 630 | 1,386 | 11,018 | 37,742 | **50,776** |
| Cyfraniad Allanol | 505 | 35,645 | 52,626 | 204,557 | **293,333** |
| Arian wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **47,151** | **109,671** | **104,023** | **420,426** | **681,271** |

**ATODIAD F**

## Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Alldro 2020/21

| | SWM £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Cyfanswm Ch 1 Ebrill - Mehefin | **47,151** | | | | | |
| Cyfanswm Ch 2 Gorffennaf – Medi | **109,671** | | | | | |
| Cyfanswm Ch3 Hydref - Rhagfyr | **104,023** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 1,200 | | | ✓ | Craidd | Paratoi dogfennau contract, ITT a thendro ar gyfer contract Prydau Ysgol |
| | 1,800 | | | ✓ | Craidd | Tendro'r Contract Prydau Ysgol 2020 |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **3,000** | | | | | |
| Diwylliant | 700 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Ffi derfynol – ailosod y cwmpawd |
| | 108 | ✓ | | | Grant | Costau siop ar-lein ar gyfer OYM |
| | 4,975 | ✓ | | | Grant | Strategaeth Farchnata a chynnwys cyfathrebu |
| | 1,515 | ✓ | | | Grant | Arddangosfa ar-lein |
| | 550 | ✓ | | | Grant | Rhaglen 'Lets get real'  prosiect 7 mis |
| | 700 | ✓ | | | Grant | Sesiynau hyfforddi recordio ffilmiau |
| **Cyafnswm Dywylliant** | **8,548** | | | | | |
| Rheoleiddio Economaidd ac Adfywio | 3,300 | | | ✓ | Allanol | Cynhyrchu dogfen ddrafft – cam 1 yr astudiaeth o'r Effaith Economaidd |
| | 11,300 | | | ✓ | Allanol | Dylunio a Chynhyrchu Mapiau Ardal Leol |
| | 500 | | | ✓ | Allanol | Saethu fideo 2020 H Ryan Cruise |
| | 11,293 | | | ✓ | Allanol | 'Crest of a Wave' a diwrnodau ffilmio ychwanegol, animeiddio |
| | 3,400 | | | ✓ | Allanol | Cam ymchwil a chynhyrchu 3 a 4 astudiaeth EIS |
| | 12,510 | | | ✓ | Allanol | Gazebo |

| | SWM £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 6,380 | | | ✓ | Craidd | Caffael tir Cyn Safle Eastman |
| | 59,860 | ✓ | | | Allanol | Cais Morlais TWAO |
| | 3,956 | ✓ | | | Allanol | Cymorth Ceisiadau – Glannau Caergybi |
| | 24,293 | ✓ | | | Allanol | Wylfa – cyngor ar ôl archwiliad |
| | 460 | ✓ | | | Craidd | Cymorth GIS |
| | 16,138 | ✓ | | | Allanol | Prosiect Wylfa Newydd |
| | 806 | ✓ | | | Craidd | Parc Solar Traffwll |
| | 94 | ✓ | | | Craidd | Glannau Caergybi |
| | 7,500 | ✓ | | | Craidd | Gwelliannau Priffyrdd Ar-lein yr A5025 |
| | 504 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaethau Technegol Sage Coretime |
| | 19,793 | | | ✓ | Allanol | Gwerthusiad o Brosiectau Isadeiledd Strategol Llangefni a Chaergybi |
| | 6,641 | | | ✓ | Allanol | Prydles Is-orsaf Stâd Ddiwydiannol Penrhos Caergybi |
| | 3,000 | | | ✓ | Allanol | Ildio a Gwerthu Scottish Power – taliadau proffesiynol |
| | 2,750 | | | ✓ | Allanol | Cynllun eiddo gwag yr Empire |
| | 4,500 | | | ✓ | Allanol | Cymorth annibynnol i ddilysu grantiau |
| | 4,875 | | | ✓ | Allanol | Adfywio canol trefi / cymorth ymgynghori eiddo gwag |
| | 9,900 | | | ✓ | Allanol | Strategaeth Gogledd Ynys Môn |
| | 5,000 | ✓ | | | Incwm Cynllunio | Darparu gwybodaeth a chyngor curadurol – memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| | 15,000 | ✓ | | | Incwm Cynllunio | Ffi flynyddol tuag at y Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff a rennir ar gyfer 2020/21 |
| | 530 | | | ✓ | Craidd | Gwiriadau strwythurol |
| | 9,090 | ✓ | | | Craidd | 4 x Diwrnodau ESS i gynnwys treuliau ar y safle a theithio 2021/22 |
| | 288 | ✓ | | | Craidd | Cyflenwi a dadansoddi tiwbiau gwasgariad |

| | SWM £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 541 | ✓ | | | Craidd | Cyfraniad tuag at Ansawdd Aer Cydweithredol Gogledd Cymru |
| | 450 | ✓ | | | Craidd | Gel Glanhau– Prawf generig |
| | 1,000 | | | ✓ | Craidd | Samplu Myotxins a metel trwm |
| | 2,977 | ✓ | | | Craidd | Debydau uniongyrchol World Pay |
| | 75 | | | ✓ | Allanol | Darparu hyfforddiant 'dychwelyd i wersi' |
| | 245 | | | ✓ | Allanol | Dylunio logo Merchaid Môn actif |
| | 250 | | | ✓ | Allanol | Cwrs diogelu rhithiol |
| | 4,000 | | | ✓ | Allanol | Darparu Rhaglen Beicio Ysgol Ynys Môn |
| | 360 | | | ✓ | Allanol | Arwyddion ar gyfer llwybr ffitrwydd teuluol |
| | 200 | | | ✓ | Allanol | Cwrs Sefydlu Diogelu Rhithiol |
| | 1,420 | | | ✓ | Allanol | Baneri Actif Môn a ffenestri naid |
| **Cyfanswm Economaidd a Rheoleiddio** | **255,177** | | | | | |
| **Pryffyrdd** | 2,552 | | | ✓ | Craidd | Cymorth a Thrwydded Si-Dem a Si Log HHC |
| | 7,500 | | | ✓ | Craidd | CSSW Cyfraniad Hamp |
| | 1,500 | | | ✓ | Craidd | Cynnal arolwg cyflwr sganiwr ychwanegol ar hyd A5 i Gaergybi |
| | 14,561 | | | ✓ | Craidd | Darparu arolwg sganiwr ar gyfer 2020/21 o hyd amcangyfrifedig islaw ffyrdd A |
| | 4,675 | | | ✓ | Craidd | Adrodd PAM, SCRIM a WGA |
| | 9,875 | | | ✓ | Craidd | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol Dwyran |
| | 10,896 | ✓ | | | Craidd | Sylwadau cynllunio LLFA Ynys Môn |
| | 630 | | | ✓ | Grant | Hwyluso trwydded ddatblygu EPS – Llyn Rhos Ddu, Niwbwrch |
| | 611 | | | ✓ | Craidd | Cynhyrchu storfa fapiau ar gyfer tabledi CamsMobile |

| | SWM £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | | |
| | 2,221 | | | ✓ | Craidd | Arolwg topograffig a dylunio sylfeini pont droed |
| | 6,160 | ✓ | | | Craidd | Dyletswyddau SAB Ceisiadau Llawn Ynys Môn |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **61,182** | | | | | |
| Gwastraff | 7,620 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Darparu Cymorth Technegol Allanol - Caffael contract casglu gwastraff a glanhau newydd |
| | 57 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | DUoS Offtake |
| | 97 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Ffi Mesuryddion a Setliad |
| | 2,798 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cymorth Technegol Nwy Tirlenwi Penhesgyn |
| | 1,065 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Adolygiad o Ddarpariaeth Ariannol Tirlenwi Penhesgyn |
| | 1,425 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cymorth Iechyd a Diogelwch |
| | 1,856 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith Monitro Bioaerosol yn yr IVC – Gorffennaf 2020 |
| | 437 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Taliadau dadansoddi |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **15,354** | | | | | |
| **CRT** | 10,110 | | | ✓ | Craidd | Tanysgrifiad Datrys Ffurflenni Deallus Orchard |
| **Cyfanswm CRT** | **10,110** | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 12,078 | | | ✓ | Craidd | Adolygu gwasanaethau |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **12,078** | | | | | |
| Ysgolion | 929 | | | ✓ | Craidd | Arwain |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **929** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 3,600 | | | ✓ | Grant Funded | Mewnbwn therapydd Iaith a Lleferydd |
| | 67 | | | ✓ | Grant Funded | Gwely a Brecwast |
| | 4,987 | | | ✓ | Grant Funded | Cynnal Blynyddol |

| | SWM £ | Categori – rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | | |
| | 400 | | | ✓ | Grant | Hyfforddiant |
| | 2,660 | | | ✓ | Grant | Gig Dydd Gwyl Dewi |
| | 3,000 | | | ✓ | Grant | Cost y prosiect – Cyfraniad Addysg |
| | 9,735 | | | ✓ | Grant | Alldeithiau Gwobr Dug Caeredin |
| | 660 | | | ✓ | Grant | Cwrs Hylendid Bwyd Lefel 2 |
| | 1,600 | | | ✓ | Grant | Gweithgareddau Allanol |
| | 57 | | | ✓ | Grant | Prynu tystysgrif genedigaeth |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **25,763** | | | | | |
| Trawsnewid | 1,227 | ✓ | | | Cyllideb Graidd | Cymorth ar gyfer system rheoli cynnwys Contensis a ddefnyddir ar gyfer y wefan gorfforaethol |
| | 3,558 | ✓ | | | Grant | Asesydd - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **CyfanswmTrawsnewid** | **4,785** | | | | | |
| Adnoddau | 22,500 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Adolygiad MRP |
| | 1,000 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaethau uwchraddio rhyddhau blynyddol 2020 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **23,500** | | | | | |
| **–Cyfanswm Ch4 Ionawr i Mawrth** | **420,426** | | | | | |
| **Cyfanswm Cronnus 2020/21 – Ebrill i Mawrth** | **681,271** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **21 MEHEFIN 2021** |
| Pwnc | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2020/21** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2020/21 sy'n destun Archwiliad; a
- Chymeradwyo cario mlaen £11.898m i 2021/22 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriant. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario mlaen i 2021/22 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 yw £48.053m

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, sy'n destun Archwiliad;
- Mae monitro cyllideb yn swyddogaeth benodedig i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin 2021 ac mae'r sylwadau a wnaed ar yr adroddiad drafft wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)** | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro yn rhan o sylwadau'r UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

| **E – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gyflawni'r amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut?** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill e.e. prosiectau ICF, yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau drutach. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy.** | Cytunwyd ar gyllido'r prosiectau a'u cynllunio gyda sefydliadau eraill, yn arbennig Llywodraeth Cymru. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen, yn cynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad? Esboniwch sut.** | Mae Cynllun Corfforaethol a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2020/21 wedi bod yn destun proses ymgynghori gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Amlinellwch pa effaith y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y Rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldebau e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Gymraeg. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2020/21

Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriant i 2021/22

**FF -**
**Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- 2020/21 Gyllideb Gyfalaf, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- 2020/21 Chwarter 1 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Medi 2020;
- 2020/21 Chwarter 2 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Tachwedd 2020;
- 2020/21 Chwarter 3 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2021.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, sy'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn destun Archwiliad.

**1.2** Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf (a oedd yn cynnwys llithriant a ragwelir) ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.050m ar gyfer 2020/21, a Rhaglen Gyfalaf o £20.255m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriant Cyfalaf o £12.109m gael ei ddwyn ymlaen o 2019/20, gan ddod â'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn dai i £22.336m, a £19.032m i'r CRT. Ers y broses o bennu'r gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cyllido gan grant, sef cyfanswm o £17.057m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2020/21 i £58.425m.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2020/21

**2.1** Tabl yn rhoi Crynodeb o'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2021:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gor Wariant £'000 | Cyllideb Flynyddol Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol - Tai | 1,928 | 1,212 | (716) | 63 |
| Tai - CRT | 19,032 | 12,622 | (6,410) | 66 |
| Dysgu Gydol Oes | 13,132 | 3,878 | (9,254) | 30 |
| Economaidd ac Adfywio | 4,029 | 2,714 | (1,315) | 67 |
| Priffyrdd | 7,852 | 5,382 | (2,470) | 69 |
| Rheoli Gwastraff | 5,509 | 3,213 | (2,296) | 58 |
| Eiddo | 2,673 | 2,405 | (268) | 90 |
| Trawsnewid | 1,079 | 771 | (308) | 71 |
| Cynllunio | 1,324 | 52 | (1,272) | 4 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,867 | 880 | (987) | 47 |
| **Cyfanswm** | **58,425** | **33,129** | **(25,296)** | **57** |
| **Cyllidwyd gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 25,215 | 20,853 | (4,362) | 83 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 793 | 1,516 | 723 | 191 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,955 | 1,242 | (6,713) | 16 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,278 | 509 | (5,769) | 8 |
| Cyfraniad Refeniw | 16,122 | 7,245 | (8,877) | 45 |
| Benthyciad | 1,401 | 1,401 | 0 | 100 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 661 | 363 | (298) | 55 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **58,425** | **33,129** | **(25,296)** | **57** |

**2.2** Y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd £39.393m, gyda Gwariant o £20.507m ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cyfateb i 52% o'r gyllideb. Mae'r rhesymau dros y tanwariant yn cynnwys:-

| Cynllun | Tanwariant £’m | Sylw |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgolion | 1.419 | Yn rhan olaf 2020/21, dyfarnwyd £1.183m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2020/21, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith Cyfalaf ysgolion yn 2021/22. |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 0.392 | Mae'n cael ei arwain gan y galw i raddau helaeth ac yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, yn benodol, mae prawf adnoddau yn berthnasol i bob darpar gleient a all effeithio'n negyddol ar nifer yr achosion sydd, yn y pen draw, yn cael grant. |
| Cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif | 6.800 | Yn sgil ymgynghori pellach, gohiriwyd y gwaith o gychwyn y cynlluniau a ddewiswyd. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y safle yn gynnar yn 2021/22 ar gyfer y cynllun Band A Terfynol. |
| Contract Gwastraff | 2.199 | Mae oedi wrth ddarparu rhai cerbydau fflyd wedi golygu y bydd hyn yn llithro i 2021/22. Disgwylir i weddill y cerbydau gael eu darparu'n derfynol yn gynnar yn 2021/22. |
| Porth Twristiaeth | 1.016 | Roedd oedi yn y trefniadau tendro yn golygu bod yn rhaid ail-dendro’r gwaith yn chwarter 4. Mae hwn yn gynllun parhaus gyda chyllideb newydd yn cael ei dyrannu yn rhaglen gyfalaf 2021/22. |
| Cynlluniau Llifogydd Amrywiol | 1.893 | Mae rhai cynlluniau'n parhau ac yn cynnwys gwahanol flynyddoedd ariannol. Mae eraill wedi cael eu gohirio a chael estyniad amser i'w cwblhau gyda sêl bendith Llywodraeth Cymru i gario'r cyllid ymlaen. |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 0.866 | Roedd oedi amrywiol drwy gydol y flwyddyn yn golygu nad oedd prosiectau'n symud ymlaen ar y cyflymder a fwriadwyd yn wreiddiol, a arweiniodd at amrywiant mor fawr i'r gyllideb. Dyrennir cyllideb newydd ar gyfer 2021/22. |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 0.493 | Mae gwaith yn mynd rhagddo i leihau'r costau er mwyn cyfateb â'r cyllid sydd ar gael. |
| Prosiectau TG | 0.292 | Roedd oedi oherwydd Covid a hefyd roedd nifer yr eitemau yr oedd angen eu hadnewyddu yn is na'r disgwyl. |
| Gwaith cyfalaf i asedau presennol | 0.255 | Oedi oherwydd diffyg ymateb i’r tendr ond mae'r gwaith yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd ac yn mynd rhagddo. |
| Gwelliannau Hamdden | 0.243 | Gan fod canolfannau hamdden ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a'r tîm rheoli wedi symud i gefnogi gwaith Covid, ni symudodd prosiectau yn eu blaenau. Mae prosiectau ar y gweill a bwriedir i'r gwaith barhau yn 2021/22. |
| Grant cyfalaf gofal plant | 0.523 | Nid yw safleoedd ysgolion eraill wedi'u cwblhau eto ac mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu estyniad i fis Mawrth 2022 i wario'r grant sy'n weddill. |

Ceir rhestr lawn o wariant y cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 66% o gyfanswm ei gyllideb ond mae pandemig Covid wedi effeithio ar berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cynnydd ar brosiectau adeiladu wedi'i lesteirio gan gyfnodau clo, yr angen i staff ynysu, llai o'r gweithlu'n bresennol er mwyn cadw at ganllawiau Covid ar safleoedd adeiladu a phrinder deunyddiau adeiladu. Er gwaethaf amodau anodd, mae contractwyr yn gyffredinol wedi dangos gwydnwch ac wedi addasu'n dda i ffyrdd newydd o weithio, ac wedi ceisio sicrhau cynnydd, ond mae'n anochel y bu rhywfaint o effaith negyddol ar berfformiad cyffredinol.

**2.4** Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca digefnogaeth a'r Cyfraniadau Refeniw. Sonnir am y prif reswm dros y tanwariant mewn grantiau ym mharagraff 2.2, lle mae prosiectau Grantiau Cyfalaf mawr fel y rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif, Porth Twristiaeth, cynllun lliniaru Llifogydd Biwmares, cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair a chynllun Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II), wedi tanwario'n sylweddol. Mae gan rai o'r cynlluniau hyn ddyraniad newydd yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22, gyda dim ond peth o'r tanwariant yn llithro, ac yn achos eraill bydd y tanwariant yn llithro'n gyfan gwbl i 2021/22. Mae manylion y symiau llithriant i'w gweld yn Atodiad B. Y prif reswm dros yr amrywiant yn y Benthyca digefnogaeth yw'r tanwariant yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ogystal â phrynu'r fflyd wastraff newydd. Roedd oedi wrth ddarparu rhai o'r cerbydau gwastraff newydd a olygai na phrynwyd y fflyd gyfan cyn diwedd y flwyddyn a disgwylir i hyn gael ei gwblhau o fewn chwarter cyntaf 2021/22. Roedd hyn ynghyd â'r ffaith bod £1.922m o gyllid grant wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru tuag at y fflyd yn ychwanegu at yr amrywiant mewn benthyca digefnogaeth. Mae'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd yn rheswm dros yr amrywiant mewn Benthyca â Chefnogaeth, ynghyd â'r tanwariant ar y safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a gyllidwyd, yn rhannol o leiaf, gan Fenthyca â Chefnogaeth. Cafodd hyn, ynghyd â'r mynediad i'r anabl mewn adeiladau addysg, ei gyllido'n llawn drwy grant yn hytrach na benthyca â chefnogaeth ac, fel y soniwyd ym mharagraff 3.1.24, derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant ychwanegol a ddefnyddiwyd yn lle cyllid lleol yn 2020/21. Mae'r amrywiant mewn Cyfraniad Refeniw yn deillio o'r tanwariant yn y CRT, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan gyfraniadau refeniw.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21. Mae rhai cynlluniau blynyddol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, megis y Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd a'r Grant Galluogi. Roedd rhai cynlluniau hefyd y dyfarnwyd cyllid grant iddynt mewn blynyddoedd blaenorol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis Isadeiledd Strategol Llangefni. Mae rhai cynlluniau'n mynd rhagddynt a byddant yn parhau i 2021/22, megis Ysgolion yr 21ain Ganrif, Porth Twristiaeth, amrywiol gynlluniau Lliniaru Llifogydd, Grant Cyfalaf Gofal Plant, Trawsnewid Treflun Caergybi a Phartneriaeth Tirwedd Ynys Gybi. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Grant Covid Trawsnewid Trefi, cynllun Grant Chwarae a'r Gronfa Ffyrdd Gwydn.

**3.1.1** **Neuadd y Farchnad -** Cwblhawyd mân waith ganol mis Ionawr 2021, fel y rhagwelwyd. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y raciau beiciau a'r storfa finiau yn yr ardal o flaen y neuadd, er eu bod wedi'u gohirio'n flaenorol, yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae cytundeb ar gyfer defnyddio 60% o ofod swyddfa'r llawr cyntaf bellach wedi'i gyflawni, gyda phrydlesi'n cael eu cwblhau rhwng timau cyfreithiol yn barod i'w defnyddio unwaith y bydd rheoliadau Covid yn caniatáu hynny. Yn ogystal â hyn, mae gwaith terfynol i alluogi'r siop goffi ar y llawr gwaelod i gael ei chwblhau'n barod i'w gosod a'i defnyddio wedi'i gefnogi drwy grant allanol trydydd parti. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd wedi cefnogi mesurau lleihau sŵn pellach i'r dderbynfa ac ystafelloedd cyfarfod y llawr cyntaf ar ôl adborth gan ddefnyddwyr, a ddechreuir yn chwarter 1 2021/22 a'u cwblhau yn gynnar yn y chwarter 2.

**3.1.2 Isadeiledd Strategol Llangefni -** Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu pum uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae gwaith yn y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau, gyda'r ddwy swyddfa wedi'u gosod ac yn cael eu defnyddio. Dyrannwyd gweddill y gwariant i uwchraddio'r cladin a mân waith arall ar y Ganolfan Fusnes bresennol ac mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau.

**3.1.3 Isadeiledd Strategol Caergybi -** Bwriad y cynllun hwn yw adeiladu deg uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r contractwr a benodwyd bellach wedi cwblhau'r prif waith ac mae oddi ar y safle. Hefyd cwblhawyd mân waith a gwaith comisiynu. Cododd problemau'n ymwneud â'r hawddfraint cysylltiadau trydan ar y safle, a arweiniodd at fwy o ffioedd cyfreithiol ond mae hyn bellach wedi'i gwblhau. Cwblhawyd y mater yn derfynol ar 22 Ionawr 2021 ac mae'r gwaith sy'n weddill bellach yn cael ei wneud ar frys a bydd yn cael ei gwblhau yn chwarter 1 2021/22. Sicrhawyd Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a threfnwyd Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun. Mae'r holl unedau wedi'u gosod yn llwyddiannus.

**3.1.4 Ysgolion yr 21ain Ganrif -** Mae'r cynllun Band A terfynol, sy'n canolbwyntio ar Ysgol Corn Hir Newydd, wedi derbyn Cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn yn ddiweddar a bydd y gwaith yn cychwyn ar y safle ddechrau mis Mehefin. Mae gwaith dylunio wedi dechrau ar y Prosiect Band B cyntaf – Uned Newydd y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Graig. Mae'r Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**3.1.5 Grant Covid Trawsnewid Trefi -** Mae holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi derbyn £0.108m o gyllid adfywio trefol Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRI) sydd wedi'i ddefnyddio i ddiben arall, sef i gefnogi addasiadau oherwydd Covid yng nghanol trefi. Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, dyfarnwyd y cyllid mewn grantiau gwerth £10k i'r pum cyngor tref a grantiau £5k i bum cyngor cymuned sy'n cynnwys pentrefi glan môr prysur. Mae'r eitemau y gwariwyd arnynt yn cynnwys addasiadau i doiledau cyhoeddus, meinciau, cynwysyddion blodau, byrddau picnic, gorsafoedd diheintio ac arwyddion. Mae rhan o'r gronfa hefyd wedi cael ei defnyddio'n uniongyrchol gan y Cyngor ar gyfer arwyddion cadw pellter cymdeithasol a mesurau cysylltiedig. Hawliwyd y grant yn llawn gyda rhai gwelliannau i feysydd parcio yn weddill, i'w gwneud yn chwarter 1 2021/22.

**3.1.6 Porth Twristiaeth –** Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaeth) Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Cybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido'n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae dyluniadau arwyddion Cyfeirio Caergybi wedi'u cwblhau ac ar fin eu gosod. Cynhaliwyd y broses o gaffael dyluniadau manwl ar gyfer y gwaith ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi yn ystod chwarter 3. Gan na dderbyniwyd unrhyw geisiadau, ail-dendrwyd y gwaith yn chwarter 4, gan benodi Wood plc i fwrw ymlaen â'r prosiect. Cynhyrchir dyluniadau manwl yn ystod chwarter 1 2021/22, a dewisir cwmni adeiladu addas maes o law.

**3.1.7 Grant Cyfalaf Gofal Plant –** Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd i alluogi'r Cyngor i gynnig digon o lefydd gofal plant i fodloni'r galw yn dilyn y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol y Tywyn £0.216m, a £0.165m ar gyfer cyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn, Ysgol Pencarnisiog, Ysgol y Tywyn ac Ysgol Esceifiog. Cynhaliwyd arolygon ar safleoedd ysgolion eraill i benderfynu ble y bydd gweddill y cyllid grant yn cael ei ddyrannu. Derbyniwyd £122k ychwanegol ar gyfer grantiau cyfalaf bach, a ddyrannwyd ac a hawliwyd yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi estyniad i fis Mawrth 2022 i wario'r grant sy'n weddill.

**3.1.8 Trawsnewid Treflun Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) –** Mae gwaith ar y gweill yn ystod chwarter 4 yn sgil grant trydydd parti cyntaf. Er bod prinder deunyddiau a phroblemau strwythurol annisgwyl wedi dod i'r golwg yn ystod gwaith wedi arwain at ychydig o oedi, mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn chwarter 1 2021/22. Mae newidiadau arfaethedig i gymorth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer canol trefi yn ystod 2021/22 wedi symud i ffwrdd o gronfa ranbarthol neilltuedig i un gystadleuol fesul prosiect, heb unrhyw ddyraniadau i Gynghorau unigol, mae hyn wedi achosi lefel o ansicrwydd nas gwelwyd o'r blaen yn ystod 10 mlynedd diwethaf y Fenter Treftadaeth Treflun. Rydym yn ystyried opsiynau ac yn nodi prosiectau blaenoriaeth sy'n cyd-fynd orau â'r dull diwygiedig i wneud y mwyaf o'r cyfle. Mae'r cynigion yn Sant Cybi ar gyfer tŵr y Gogledd Ddwyrain yn rhan uchaf mynwent yr Eglwys wedi'u cwblhau ac ni ragwelir y bydd tendrau'n cael eu cyhoeddi yn ystod chwarter 1 2021/22.

**3.1.9 Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi -** Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i gyflawni amrywiaeth o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Disgwylid cael caniatâd i gychwyn gwaith ar y prosiectau gan NLHF yn chwarter 3 2019/20, ond bu peth oedi yn dilyn cais am estyniad i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Mae caniatâd bellach wedi'i roi. Derbyniwyd 'caniatâd i ddechrau' gan NLHF yn chwarter 3 2020/21. Dechreuodd Rheolwr y Rhaglen a'r Swyddog Prosiect eu swyddi newydd ym mis Ionawr 2021 ac maent wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r Bartneriaeth ac ailedrych ar gynigion prosiect. Mae'r NLHF wedi gofyn am ailbroffilio ymhellach i gyflawni'r prosiect yn 2024/25 gyda'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol.

**3.1.10** Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer **Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRIP).** Pwrpas y cyllid yw dod â 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Tai Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol Tai Gwag a Byw mewn Canol Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd, fel ei bartner cyflawni ar y cyd. Dyrannwyd £1.001m ar gyfer Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf, Cymorth Landlordiaid Cartrefi Gwag, Byw mewn Canol Trefi ac Ymyrraeth Uniongyrchol Cartrefi Gwag. Dyrannwyd £284k ychwanegol yn chwarter 4 i gefnogi'r gwaith o greu dwy Hwb Gymunedol yn Amlwch a Phenygroes a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf. Hawliwyd y £1.285m yn llawn ym mis Mawrth 2021. Yn ogystal â hyn, dyrannwyd £49k drwy'r Prosiect Thematig Rhanbarthol Adeiladau Pwysig i brynu adeilad yng Nghaergybi a hawliwyd yn llawn hefyd.

**3.1.11 Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch -** Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae'r gwaith o ddatblygu cytundeb gwaith gyda Dŵr Cymru'n mynd rhagddo ac mae data modelu bellach wedi'i rannu i ganiatáu i'r astudiaeth ymchwilio'n gyfannol i'r peryglon llifogydd sy'n wynebu ein systemau ni a Dŵr Cymru yn y dref. Yn Amlwch, mae angen gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y gellir ystyried prif berygl llifogydd yr afon yn yr astudiaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn aros am gytundeb gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu i hyn fynd yn ei flaen. Gallai'r ddwy astudiaeth hyn barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf ac o bosibl FY 2022/23.

**3.1.12 Gwaith Grantiau Ar Raddfa Fach (25 lleoliad)** - Y grant hwn yw'r grant mwyaf a ddyfarnwyd erioed i'r Cyngor ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach. Yn anffodus, fe'i dyfarnwyd yn ystod pandemig Covid-19 ac, o ganlyniad, nid oedd modd dechrau'r gwaith adeiladu'n syth. Fodd bynnag, parhaodd y gwaith a chwblhawyd 24 o'r 25 cynllun.

**3.1.13 Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares -** Cwblhawyd gwaith sylweddol ar y safle yn yr haf, gyda rhan o'r gwaith yn cael ei ohirio. Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu'r rhan a ohiriwyd. Ni fydd y gwaith adeiladu yn dechrau tan ddiwedd 2021 ar y cynharaf.

**3.1.14 Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth -** Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth o fewn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd y cynllun hwn wedi dechrau ar y safle ond yna daeth ar draws amodau tir annisgwyl. Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer yr amodau tir anodd ac ar gyfer goblygiadau Covid. Cwblhawyd gwaith sylweddol ar y safle yn yr haf ac mae'r cynllun bellach wedi'i gwblhau.

**3.1.15 Traeth Coch -** Mae gwaith ymgynghorwyr i Ddylunio a Datblygu'r Cynllun Risg Arfordirol yn Nhraeth Coch yn parhau. Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn, yn enwedig mewn perthynas ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y cyfyngiadau presennol. Ar ôl i'r cyllid cyfatebol gael ei gymeradwyo, anelir at ddechrau'r gwaith ym mis Mawrth 2022, yn dibynnu ar yr hawliau gofynnol ar gyfer Gwaith Arfordirol.

**3.1.16 Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Menai a'r Fali -** Mae'r tri chynllun yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynglŷn â'r heriau y mae'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Llanfairpwll yn eu cyflwyno a rhagwelir rhagor o waith yma. Mae'n debygol y bydd achos busnes llawn (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfairpwll yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae llai o risgiau canfyddedig gyda Phorthaethwy a'r Fali a rhagwelir y bydd y Fali a Phorthaethwy yn barod ar gyfer adeiladu o fewn blwyddyn ariannol 2021/22.

**3.1.17 Cynllun Grant Hwb ar gyfer Isadeiledd Mewn Ysgolion –** Mae dyddiad cwblhau arfaethedig yr offer isadeiledd ffisegol wedi'i fethu oherwydd pwysau ar y timau gweithredu dan sylw. Cynigiwyd amserlen ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd ar gyfer gosod yr offer sy'n weddill cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.

**3.1.18 Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** – Dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.100m ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Penodwyd cwmni i ddylunio ac adeiladu'r ardal chwarae antur. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi estyniad i gwblhau'r prosiect i chwarter 1 2021/22.

**3.1.19 Cerbyd Trydan –** Dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Tirweddau Cynaliadwy a Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.05m ar gyfer prynu cerbyd trydan gwybodaeth i dwristiaid, gyda'r grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn a'r gyllideb gyfan wedi'i ymrwymo.

**3.1.20 Cronfa Ffyrdd Gwydn** - Ffrwd cyllido grant newydd yw hon, a gyflwynwyd eleni. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid o dan y grant hwn i astudio pa fesurau cydnerthedd y gellid eu gweithredu ar yr A545 a'r B5109 y naill ochr a'r llall i Fiwmares. Mae gan y ddwy ffordd yma hanes o gau ar adegau o dywydd garw, a bydd mwy o stormydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Comisiynwyd WS Atkins Ltd gan yr Awdurdod i gynnal astudiaeth gwytnwch camau 1 a 2 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), gyda'r fersiwn derfynol i'w chyhoeddi'n fuan. Bydd yr adroddiad hwn yn sail i gam 3 WelTAG a gynhelir yn 2021/22.

**3.1.21 Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd –** Mae'r cynllun hwn yn cynnwys dau brosiect gwerth cyfanswm o £0.478m. Mae un prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch y ffyrdd ar yr A5025, y Fali i Borthaethwy, a'r prosiect arall yw cyflwyno parthau 20mya y tu allan i ysgolion ynghyd â gwell cysylltiadau i gerddwyr. Gwariwyd y gyllideb yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn, gyda gwariant yn chwarter 4 ar gyfer dwy agwedd y prosiect ychydig yn uwch na'r swm a ddyrannwyd oherwydd arwyddion ychwanegol. Cwblhawyd y gwaith diogelwch y ffyrdd a gwelliannau i gerddwyr ar yr A5025, ynghyd â gweithredu parthau 20mya y tu allan i safleoedd ysgolion yr Ynys.

**3.1.22 Teithio Llesol -** Sicrhawyd £0.200m o Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer mân welliannau i'r isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, parcio beiciau, dileu rhwystrau mynediad a lledu llwybrau, yn ogystal â datblygu'r mapiau Teithio Llesol Integredig. Diben y grant yw hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Comisiynodd yr Awdurdod ymgynghorwyr allanol i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gynlluniau gwella Teithio Llesol posibl y gellid eu cyflawni yn y dyfodol, yn ogystal â gwneud mân welliannau lleol o fewn yr aneddiadau dynodedig. Cwblhaodd yr Awdurdod hefyd gam cyntaf yr Ymgynghoriad mapio Rhwydwaith Teithio Llesol drwy Commonplace.

**3.1.23 Cyllid Trafnidiaeth Leol** - Sicrhawyd £0.813m o grant Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Drafnidiaeth Leol, Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Diben y cronfeydd hyn yw gallu datblygu systemau trafnidiaeth integredig, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy a gallu datblygu a chyflawni cynlluniau sy'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i dacsis/cerbydau hurio preifat gyflawni dim allyriadau erbyn 2028.

- **Cronfa Drafnidiaeth Leol** - Sicrhawyd £0.375m ar gyfer cwblhau'r gwaith o adeiladu safle Parcio a Rhannu Gaerwen. Cwblhawyd gweddill y gwaith tirlunio/plannu yn chwarter 4. Sicrhawyd £0.101m ar gyfer paratoi cynlluniau ar gyfer Hwb Porth Caergybi ym Morglawdd Caergybi a defnyddiwyd hwn yn llawn. At hynny, sicrhawyd £0.203m ar gyfer prynu offer trwsio ffyrdd thermol, a ddefnyddiwyd yn llawn hefyd.

- **Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol** - Sicrhawyd £0.049m ar gyfer gwelliannau i safleoedd bysiau a datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleusterau teithwyr bysiau yng nghyffordd Pencarnisiog ar yr A4080. Gwnaed mân waith yn chwarter 3, gyda gwariant y gyllideb sy'n weddill i'w wneud yn chwarter 4. Gwnaed gwaith gwella safleoedd bysiau mewn pedwar lleoliad, ynghyd ag arolwg safle ac astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwelliannau i gyffordd Pencarnisiog â'r A4080 yn cynnwys darparu safle bysiau.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn -** Sicrhawyd £0.085m ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yng nghyfleuster Parcio a Theithio / Rhannu Llanfairpwll fel hwb drafnidiaeth gynaliadwy. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol yn chwarter 3 i gynnal astudiaeth ddichonoldeb a dyluniad manwl ar gyfer y safle. Cynhaliwyd gwaith paratoi a chaffael gwefrwyr Cerbydau Trydan yn chwarter 4 a chwblhawyd yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar Isadeiledd Gwefrwyr cerbydau trydan. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol ar y cynllun oedd £0.028m, gyda'r tanwariant yn cael ei briodoli i nifer o ffactorau dros y 12 mis diwethaf, yn bennaf, oherwydd effaith Covid 19, nid oedd modd dechrau'r astudiaeth tan yn hwyr yn 2020. Y broblem fwyaf sydd wedi arwain at ohirio'r gwaith o gwblhau'r astudiaeth yw'r oedi wrth dderbyn gwybodaeth gan Rwydweithiau Scottish Power Energy (SPEN), sef Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarth (DNO). Roedd rhyngddibyniaeth o ran derbyn gwybodaeth am y gofynion isadeiledd trydanol a'r costau cysylltiedig angenrheidiol i weithredu'r opsiynau a nodwyd yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb. Cafwyd cynnydd cadarnhaol o ran yr Astudiaeth Ddichonoldeb ac, unwaith y bydd y gwaith modelu wedi'i gwblhau, bydd modd ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r prosiect.

**3.1.24** **Grant Ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion** - Yn rhan olaf 2020/21, dyfarnwyd £1.183m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2020/21, yn lle defnyddio'r cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf ysgolion yn 2021/22.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020/21:-

| | Cyllideb 2020/21 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2021 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 20 | 20 |
| Cyffredinol | 314 | 564 | 249 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 554 | 370 | (184) |
| **Cyfanswm** | **868** | **954** | **85** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2020/21 yn £0.954m, yn erbyn cyllideb o £0.868m, sy'n fwy na'r gyllideb. Y prif reswm dros yr amrywiant yw na werthwyd asedau a oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, sy'n dod i gyfanswm o £505k. Ni fydd ymdrechion yn cael eu gwneud yn awr i werthu un o'r asedau hyn yn 2021/22 ond rhagwelir bydd y lleill yn cael eu gwerthu yn 2021/22. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb (£583k) a hefyd o ganlyniad i dderbyn mwy am asedau a werthwyd nag a ragwelwyd yn y gyllideb (£7k).

Fel y gellir gweld yn Atodiad B, bydd rhai o'r cynlluniau Cyfalaf yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2020/21. Bydd y llithriant yn y derbyniadau Cyfalaf hyn yn cyllido'n rhannol y llithriant yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd dros ben, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a'r gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol.

## 4. Y BLYNYDDOEDD I DDOD

**4.1** Cafodd yr Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2021/22 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2021. Mae'r rhaglen gyfalaf gyfan ar gyfer 2021/22 (yn cynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yn dod i gyfanswm o £36.155m. Gellir torri hyn i lawr i:-

- **Cronfa Gyffredinol**
  - Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen - £4.000m;
  - Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol - £4.137m;
  - Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21 - £1.105m;
  - Ysgolion yr 21ain Ganrif - £6.600m.

- **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**
  - Dyraniad 2020/21 ar gyfer cynlluniau - £20.313m.

Y cyllid arfaethedig fydd £12.347m (34%) o ffynonellau cyllido allanol, fel Grantiau Cyfalaf, a £23.808m (66%) o ffynonellau mewnol.

Mae hyn yn cynnwys £5.055m o fenthyca â chefnogaeth, £2.498m o fenthyca digefnogaeth, gyda'r £16.255m sy'n weddill yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun.

**4.3** Fel y gellir gweld yn Atodiad B, cynigir y bydd £11.898m yn cael ei gario ymlaen i 2021/22 fel llithriant ar gyfer cynlluniau cyfalaf na chwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Gyda'i gilydd, mae cynlluniau yn y Gronfa Gyffredinol sy'n werth cyfanswm o £9.650m a chynlluniau CRT gwerth £2.248m. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn llithro i 2021/22 ac, ar gyfer y Gronfa Gyffredinol, mae hyn yn cynnwys £0.213m o Dderbyniadau Cyfalaf, £3.175m o Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth gwerth £3.711m, £2.199m o fenthyca digefnogaeth a £0.352m o Gronfeydd Wrth Gefn, gyda'r elfen CRT yn dod o'r Cyfraniad Refeniw o'r CRT. Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 a pharagraff 2.4 o'r adroddiad hwn, mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau cyllido hyn y gellir eu cario drosodd i 2021/22.

**4.4** Os caiff y llithriant yn Atodiad B o'r adroddiad hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn, cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 fydd £48.053m, y bydd £25.492m ohono'n dod o'r Gronfa Gyffredinol a £22.561m o'r CRT. Gellir ychwanegu cynlluniau ychwanegol at y Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2021/22 os bydd cyllid grant ychwanegol ar gael.

**4.5** Parhaodd yr achosion o Covid 19 i gael effaith ar y flwyddyn ariannol hon, lle y daeth gwaith ar nifer o safleoedd i ben ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, yn unol â chyfyngiadau a chanllawiau'r Llywodraeth. Felly, oherwydd yr oedi yma, ni chwblhawyd rhai cynlluniau yn ystod y flwyddyn oherwydd hyn a byddant yn parhau yn 2021/22. Mae'n siŵr y bydd 2021/22 hefyd yn gweld effaith ac ansicrwydd parhaus Covid 19.

## 5. YR EFFAITH AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Roedd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2021 yn £136.560m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol ar hyn o bryd yn £126.417m.

Mae'r Awdurdod o fewn ei lefelau benthyca awdurdodedig, yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 (Atodiad 11 y datganiad hwnnw). Cyflwynir adolygiad llawn o Reoli Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er bod lefel y tanwariant yn sylweddol (43% o'r cyllid sydd ar gael), nid yw'n annisgwyl wrth ddelio â nifer o brosiectau mawr, cymhleth, sy'n gorfod cael cymeradwyaeth wleidyddol, dilyn rheoliadau caffael, cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyllido arall, ac sy'n agored i broblemau annisgwyl unwaith mae'r gwaith yn cychwyn ar y safle. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â phrosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a fwriadwyd (Ysgolion yr 21ain Ganrif, safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau isadeiledd a Phrynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd ar gyfer y CRT) neu oherwydd bod gwaith wedi cael ei atal ar safleoedd, gan olygu nad oedd modd cwblhau cynlluniau ar amser. Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, mae oedi annisgwyl yn arferol ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar brosiectau o'r fath yn llithro. Ym mhob achos, llwyddwyd i sicrhau'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn a bydd yn cael ei gario drosodd i 2020/21, sy'n golygu na fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriant i 2021/22

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2021/22 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 636,000 | 244,146 | (391,854) | 38 | 62 | 100,000 | Llithriant o £100k er mwyn sicrhau cyllid digonol i gyllido dau gais posibl sydd â gwerth cyfalaf uchel. Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 523,506 | 30,529 | (492,977) | 6 | 94 | 492,977 | Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 135,000 | 300,157 | 165,157 | 222 | (122) | 0 | |
| Grant Galluogi | 93,200 | 93,885 | 685 | 101 | (1) | 0 | |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 147,576 | 127,879 | (19,697) | 87 | 13 | 0 | |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 362,000 | 415,156 | 53,156 | 115 | (15) | 0 | |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Llithriant wedi'i gyllido gan **dderbyniadau cyfalaf.** |
| **Cyfanswm** | **1,927,932** | **1,211,752** | **(716,180)** | **63** | **37** | **623,627** | |
| | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 21,387 | (378,613) | 5 | 95 | 0 | Mae Covid wedi cael rhywfaint o effaith ar wariant eleni, gorfodwyd safleoedd adeiladu i gau am ychydig wythnosau oherwydd bod Masnachwyr Adeiladwyr ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf a bod staff rhai cwmnïau ar ffyrlo. Pan ail-ddechreuodd gweithgareddau adeiladu, roedd gyda llai o bresenoldeb yn y gweithlu oherwydd yr angen i ymbellhau'n gymdeithasol a chadw at ganllawiau Covid ar y safle, sefyllfa sy'n parhau, gan arwain at lai o gynnydd na'r disgwyl ar brosiectau adeiladu. Daethwyd ar draws prinder deunyddiau hefyd, gan arwain at arafu cynnydd. Hefyd, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn, ni chafodd unrhyw eiddo presennol ei 'brynu'n ôl' gan nad oedd yn bosibl cynnal ymweliadau ac arolygon tai preifat. |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,120,000 | 4,370,826 | (1,749,174) | 71 | 29 | 0 | |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 2,079 | (534,921) | 0 | 100 | 0 | |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 61,717 | (688,283) | 8 | 92 | 0 | |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 9,230,000 | 6,982,203 | (2,247,797) | 76 | 24 | 2,247,797 | |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 2,218 | 49,621 | 47,403 | 2237 | (2,137) | 0 | |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 168,164 | (181,836) | 48 | 52 | 0 | |
| Risg Tân | 450,000 | 52,735 | (397,265) | 12 | 88 | 0 | |
| Tir Halogedig | 20,000 | 9,573 | (10,427) | 48 | 52 | 0 | |
| SATC | 1,172,875 | 904,240 | (268,635) | 77 | 23 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **19,032,093** | **12,622,544** | **(6,409,549)** | **66** | **34** | **2,247,797** | Llithriant wedi'i gyllido gan **gyfraniadau refeniw.** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2021/22 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 500,000 | 226,746 | (273,254) | 45 | 55 | 100,000 | Derbyniwyd llai o geisiadau am ddisgyblion anabl. Contractau sy'n dal ar y safle fel Llanfawr ac Ysgol Gyfun. Mae'r gwaith sydd ei angen yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn amodol ar ddichonoldeb y blociau tŷ. |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 3,217,275 | 1,798,472 | (1,418,803) | 56 | 44 | 1,418,803 | Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2020/21, gan ddisodli cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith cynnal a chadw Cyfalaf ysgolion yn 2021/22 - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | - | (200,000) | 0 | 100 | 200,000 | Cronfa i gynnal adolygiad o asesiadau risg safleoedd ysgolion - y rhagwelir y bydd yn symud ymlaen yn 2021/22 - i'w cyllido drwy **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Dymchwel ysgolion / llyfrgelloedd | 324,620 | 291,470 | (33,150) | 90 | 10 | 33,150 | Gweddill y gyllideb wedi llithro i gwblhau gwaith - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol y Graig | 666,000 | 34,485 | (631,515) | 5 | 95 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd Y Llan | 31,861 | 50,660 | 18,799 | 159 | (59) | 0 | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Seiriol | 400,000 | - | (400,000) | 0 | 100 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Santes Dwynwen | - | 5,434 | 5,434 | | | 0 | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Amlwch | 100,000 | 1,620 | (98,380) | 2 | 98 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 3,507,000 | 567,379 | (2,939,621) | 16 | 84 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 35,000 | 35,153 | 153 | 100 | (0) | 0 | |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 4,276 | 4,661 | 385 | 109 | (9) | 0 | |
| Cynyddu'r capasiti ar gyfer grant cyfalaf gofal plant | 1,291,197 | 767,781 | (523,416) | 59 | 41 | 523,416 | Cynllun parhaus - llithriant wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A | 1,205,000 | - | (1,205,000) | 0 | 100 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B | 1,550,000 | - | (1,550,000) | 0 | 100 | 0 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd, nid oes angen llithriant. Mae'r tanwariant yn ganlyniad oedi i'r rhaglen oherwydd ailwneud y broses ymgynghori. Bydd y dyraniad newydd yn unol â'r Matrics wedi'i ddiweddaru a dderbynnir. |
| Chromebooks (Grant Gweithgareddau'r Haf)) | 19,899 | 19,989 | 90 | 100 | (0) | 0 | |
| Gwaith Celf - John Kyffin Williams | 12,000 | 12,000 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Grant Chwarae | 67,523 | 62,330 | (5,193) | 92 | 8 | 0 | Dyfarnwyd grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig – dim llithriad. |
| **Cyfanswm** | **13,131,651** | **3,878,179** | **(9,253,472)** | **30** | **70** | **2,275,369** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2021/22 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Gwaith a'r gyfer Ystafell Ffitrwydd Plas Arthur | 102,864 | 116,010 | 13,146 | 113 | (13) | 0 | |
| Gwelliannau Hamdden | 250,000 | 6,688 | (243,312) | 3 | 97 | 243,312 | Oherwydd cau canolfannau hamdden am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a'r tîm rheoli yn symud i gefnogi gwaith Covid, ni symudodd prosiectau ymlaen. Mae prosiectau ar y gweill ac, felly, mae angen llithro i 2021/22 - wedi'i cyllido gan **gronfeydd wrth gefn.** |
| Porth Twristiaeth | 1,076,233 | 60,425 | (1,015,808) | 6 | 94 | 50,000 | Cyllid y Cyngor i'w gario ymlaen - dyraniad grant newydd yng nghyllideb 2021/22 - llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,553,764 | 1,469,101 | (84,663) | 95 | 5 | 84,663 | Llithriad wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 231,360 | 232,399 | 1,039 | 100 | (0) | 0 | |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 15,252 | 9,687 | (5,565) | 64 | 36 | 5,565 | Gwaith yn parhau – angen llithriad – i'w gyllido gan **gronfeydd wrth gefn.** |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3 | 24,925 | 24,925 | 0 | 100 | (0) | 0 | |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 95,000 | 0 | (95,000) | 0 | 100 | 95,000 | Cyllid cyfatebol i'w gario ymlaen - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | (30,000) | 0 | 100 | 30,000 | Gofyn am lithriant i gyllid gael ei ddefnyddio yn y dyfodol - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Datblygu Safle Ysgol TRIP | 7,222 | 0 | (7,222) | 0 | 100 | 7,222 | Cyllid cyfatebol i'w gario ymlaen - wedi'i gyllido gan **gronfeydd wrth gefn.** |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 64,150 | 0 | (64,150) | 0 | 100 | 64,150 | Cyllid cyfatebol i'w gario ymlaen - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chymorth.** |
| Unedau Porth | 160,000 | 512,753 | 352,753 | 320 | (220) | 0 | |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 108,000 | 97,936 | (10,064) | 91 | 9 | 10,064 | Gwaith pellach i'w gwblhau – angen llithriad – cyllidwyd a **grant.** |
| Grant Arfor | 160,000 | 160,000 | (0) | 100 | 0 | 0 | |
| Grant AHNE - cerbyd trydan | 50,000 | 23,879 | (26,121) | 48 | 52 | 26,121 | Cyllideb wedi'i hymrwymo'n llawn ac estyniad o amser wedi ei ganiatau – cyllidir y llithriant drwy **grant.** |
| Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 100,000 | 0 | (100,000) | 0 | 100 | 100,000 | Ymestyn yr amser a ganiateir i Ch1 2021/22 - wedi'i gyllido drwy **grant.** |
| **Cyfanswm** | **4,028,770** | **2,713,803** | **(1,314,967)** | **67** | **33** | **716,097** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2021/22 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 30,000 | 9,932 | (20,068) | 33 | 67 | 20,068 | Archebion wedi eu dwyn ymlaen i 2021/22 - wedi'u cyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Cerbydau | 623,867 | 464,673 | (159,194) | 74 | 26 | 159,194 | Gwariant ymroddedig - i'w ddwyn ymlaen - wedi'i gyllido drwy **grant a benthyca â chefnogaeth.** |
| Maes Awyr Môn | 16,724 | 16,724 | 0 | 100 | (0) | 0 | |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,962,996 | 1,619,690 | (343,307) | 83 | 17 | 343,307 | Swyddi i'w cyflawni yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd - wedi'u cyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 683,371 | 203,702 | (479,669) | 30 | 70 | 479,669 | Gwaith parhaus - cyllid grant wedi'i gymeradwyo ar gyfer ymestyn amser - wedi'i gyllido gan **grant, benthyca â chefnogaeth a chronfeydd wrth gefn.** |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 325,581 | 297,532 | (28,049) | 91 | 9 | 28,049 | Mae'r contract ar y cynllun wedi'i gwblhau gyda rhai costau ychwanegol yn weddill. Cyllidir gan **grantiau a chronfeydd wrth gefn.** |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 39,986 | 7,695 | (32,291) | 19 | 81 | 32,291 | Gwaith parhaus - estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant - wedi'i gyllido gan **grantiau a chronfeydd wrth gefn.** |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 69,845 | 17,701 | (52,144) | 25 | 75 | 52,144 | Gwaith parhaus - estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant - wedi'i gyllido drwy **grant a benthyca â chefnogaeth.** |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 104,952 | 30,799 | (74,153) | 29 | 71 | 74,153 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 406,034 | 6,387 | (399,647) | 2 | 98 | 399,647 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 161,801 | 5,624 | (156,177) | 3 | 97 | 156,177 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 150,913 | 52,597 | (98,316) | 35 | 65 | 98,316 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Strwythur Mill Lane | 201,250 | 112,153 | (89,097) | 56 | 44 | 89,097 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant ac chronfeydd wrth gefn.** |
| Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM | 213,192 | 24,639 | (188,553) | 12 | 88 | 188,553 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Mill Lane - NFM | 245,525 | 1,565 | (243,960) | 1 | 99 | 243,960 | Gwaith parhaus – estyniad amser wedi ei gymeradwyo am gyllid grant – cyllidir gan **grant.** |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 72,980 | 40,993 | (31,987) | 56 | 44 | 31,987 | Gwariant ymroddedig - i'w ddwyn ymlaen - wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 739,921 | 721,074 | (18,847) | 97 | 3 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Teithio Llesol | 200,000 | 193,145 | (6,855) | 97 | 3 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| A545 Biwmares | 24,727 | 23,941 | (786) | 97 | 3 | 786 | Cyllidir gan **dderbyniadau cyfalaf.** |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 478,000 | 517,535 | 39,535 | 108 | (8) | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 125,000 | 122,805 | (2,195) | 98 | 2 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Trafnidiaeth Lleol - Parcio a Rhannu Gaerwen | 375,000 | 367,551 | (7,449) | 98 | 2 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol - Gwaith gwella'r Arhosfan Bysiau | 49,000 | 29,393 | (19,607) | 60 | 40 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan | 85,000 | 27,701 | (57,299) | 33 | 67 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| Offer trwsio ffyrdd thermol - Crofna Drafnidiaeth Leol | 203,100 | 203,100 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Hwb Porth Caergybi | 263,593 | 263,015 | (578) | 100 | 0 | 0 | Dyfarniad grant am y flwyddyn 2020/21 yn unig - dim llithriant. |
| **Cyfanswm** | **7,852,358** | **5,381,665** | **(2,470,692)** | **69** | **31** | **2,397,398** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2021/22 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Contract Gwastraff | 4,482,000 | 2,283,221 | (2,198,779) | 51 | 49 | 2,198,779 | Bydd gweddill y fflyd yn cael ei brynu yn gynnar yn 2021/22 - wedi'i gyllido gan **fenthyciadau digefnogaeth.** |
| Grant Gweithgareddau Atgyweirio ac Ailddefnyddio yn Nhrefi Cymru | 110,000 | 110,000 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Cyllid Economi Cylchol (266) | 439,100 | 413,026 | (26,074) | 94 | 6 | 64,093 | Dyfarnwyd ymestyn yr amser a ar y grant ar gyfer oedi ar waith penodol - wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 477,830 | 406,683 | (71,147) | 85 | 15 | 13,175 | Dyfarnwyd ymestyn yr amser a ar y grant ar gyfer oedi ar waith penodol - wedi'i gyllido gan **grant.** |
| **Cyfanswm** | **5,508,930** | **3,212,930** | **(2,296,000)** | **58** | **42** | **2,276,047** | |
| | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 872,677 | 617,724 | (254,953) | 71 | 29 | 254,953 | Gohiriwyd ail-doi depo Gaerwen oherwydd diffyg ymateb tendro ond mae hyn ar y safle ar hyn o bryd. Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 1,697,017 | 1,697,017 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| Adnewyddu Mânddaliadau | 100,000 | 88,643 | (11,357) | 89 | 11 | 11,357 | Gwaith parhaus - i'w lithro - wedi'i gyllido gan **dderbyniadau cyfalaf.** |
| Fferm Cromlech | 3,172 | 2,252 | (920) | 71 | 29 | 920 | Cyllidir gan **gronfeydd wrth gefn.** |
| **Cyfanswm** | **2,672,866** | **2,405,636** | **(267,230)** | **90** | **10** | **267,230** | |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 292,662 | 45,196 | (247,466) | 15 | 85 | 247,466 | Disgwylir i elfennau gwerth uchel o isadeiledd gael eu hadnewyddu yn 2021/22, felly, bydd cario'r cyfalaf hwn yn sicrhau bod digon i dalu'r costau hynny. Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 119,807 | (1,193) | 99 | 1 | 1,193 | Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 32,405 | 9,161 | (23,244) | 28 | 72 | 23,244 | Mae gwaith yn dod i ben ar y trosglwyddo hwn, bydd y cyfalaf sy'n weddill yn mynd tuag at ffibr i safleoedd anodd eu cyrraedd. Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 0 | (19,964) | 0 | 100 | 19,964 | Nid yw'r gwariant hwn wedi digwydd yn ystod Covid ond bydd yn ailddechrau gyda dychwelyd i'r swyddfa. Llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Hwb Isadeiledd TGCh | 63,124 | 46,280 | (16,844) | 73 | 27 | 0 | |
| Offer Technegol Addysg - TGCh | 550,216 | 550,216 | 0 | 100 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **1,079,371** | **770,660** | **(308,711)** | **71** | **29** | **291,866** | |
| | | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Prosiect Hwb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 281,000 | 18,596 | (262,404) | 7 | 93 | 262,404 | Gwaith parhaus wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 143,300 | 0 | (143,300) | 0 | 100 | 143,300 | Gwaith parhaus wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 900,000 | 33,595 | (866,405) | 4 | 96 | 262,000 | Gwaith parhaus wedi'i gyllido gan **grant, cronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf.** |
| **Cyfanswm** | **1,324,300** | **52,191** | **(1,272,109)** | **4** | **96** | **667,704** | |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| ICF | 1,732,800 | 879,772 | (853,028) | 51 | 49 | 0 | Newidiwyd cyllidebau cynlluniau unigol o fewn ICF drwy gydol y flwyddyn, cynllun newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, dim llithriant. |
| Hwb cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | (13,155) | 0 | 100 | 13,155 | Gwaith parhaus wedi'i gyllido gan **grant.** |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 1 | (37,978) | 0 | 100 | 37,978 | Oedi oherwydd methu cael mynediad i'r cartref - llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | (83,371) | 0 | 100 | 83,371 | Oedi oherwydd methu cael mynediad i'r cartref - llithriant wedi'i gyllido gan **fenthyca â chefnogaeth.** |
| **Cyfanswm** | **1,867,304** | **879,772** | **(987,532)** | **47** | **53** | **134,504** | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **58,425,574** | **33,129,133** | **(25,296,442)** | **57** | **43** | **11,897,638** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **21 MEHEFIN 2021** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB CRT – ALLDRO 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r isod:-

**(i)** Y sefyllfa nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a oedd yn dangos gwarged a gynlluniwyd o £7.8m.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 oedd £19.1m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2019/20.

**(iii)** Roedd cyfuniad y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cyllidebol o £7.1m, sef diffyg a gynlluniwyd ac a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi ei glustnodi i'w defnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian yn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae alldro ariannol y gyllideb refeniw yn dangos tanwariant o £557k, o gymharu â thanwariant o £238k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Mae'r alldro o ran incwm £154k yn well na'r gyllideb wreiddiol, ac mae'r alldro o ran gwariant £403k yn is na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant Cyfalaf £6,410k yn is na'r gyllideb wreiddiol, o gymharu â rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3 y byddai £8,022k yn is na'r gyllideb. Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg alldro (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £8,234k yn llai na'r gyllideb, o gymharu â'r diffyg a ragwelwyd o £8,053k yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd chwarter 3. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf is nag a gynlluniwyd. Mae hyn yn golygu gwarged o £1,145k ar gyfer y flwyddyn, sy'n gadael cronfa wrth gefn y CRT o £9,742k fydd ar gael i gyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

## 5. Incwm

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £154k yn uwch na'r gyllideb fel y nodir isod (o gymharu â £197k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd yn chwarter 3).

**(ii)** Roedd incwm rhent £94k yn is na'r gyllideb (£203k yn is ar ddiwedd chwarter 3). Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn rhagdybio y byddai tai newydd yn dod ar gael yn ystod y flwyddyn sydd wedi cael eu dal yn ôl (gweler hefyd yr adran 'cyfalaf' isod). Roedd yr alldro £56k yn well na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 3.

**(iii)** Roedd incwm o daliadau gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd, £3k yn unig yn uwch na'r gyllideb. Adolygwyd y gyllideb yn llwyr yn dilyn tanwariant sylweddol y llynedd.

**(iv)** Roedd incwm arall £27k yn uwch na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd grantiau refeniw a dderbyniwyd yn hwyr yn y flwyddyn ac nad oedd eu disgwyl ar ddiwedd chwarter 3.

**(v)** Mae'r cynllun 30 mlynedd yn cynnwys darpariaeth o £280k tuag at ddyledion drwg, sef 1.5% o'r cyfanswm incwm rhent. Roedd hyn yn gynnydd o gymharu â'r 1.25% yn y flwyddyn flaenorol a hynny er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol. Dim ond pan nad oes gobaith realistig o adennill ôl-ddyledion rhent y mae dyled ddrwg yn codi. Y ddarpariaeth wirioneddol yng nghyfrif blynyddol 2019/20 oedd £118k, sef dim ond 0.65% o'r cyfanswm incwm rhent, sy'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed i sicrhau bod y rhent sy'n ddyledus yn cael ei adennill. Gwnaed y darpariaethau hyn cyn i bandemig Covid 19 effeithio ar Ynys Môn. Ddiwedd mis Mawrth 2020 roedd yr ôl-ddyledion rhent yn 2.41% o'r incwm rhent (£438k). Ddiwedd mis Mehefin, roedd hyn wedi codi i 3.4% (£625k), sef cynnydd o 50%. Ar ddiwedd mis Medi roedd wedi gostwng i 3.33% (£612k), erbyn diwedd mis Rhagfyr, roedd wedi gostwng ymhellach i 3.14% (£578k) ac ar ddiwedd mis Mawrth roedd wedi gostwng ymhellach i 2.98% (£548k), perfformiad rhyfeddol pan ystyrir effeithiau'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiau Covid ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc dai, a dengys y dadansoddiad diweddaraf (hyd at ddiwedd mis Rhagfyr) fod lefelau dyledion yn amrywio rhwng thua 2.5% a dros 5.5% ymhlith yr 11 awdurdod lleol, ac Ynys Môn oedd y 4ydd gorau allan o'r 11. O ganlyniad i'r holl dueddiadau ffafriol, roedd y ddarpariaeth ychwanegol tuag at ddyledion drwg yn £57k, £223k yn llai na'r ddarpariaeth wreiddiol.

**(vi)** Roedd yr alldro incwm cyffredinol £153k yn uwch na'r gyllideb (rhagwelwyd y byddai £150k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd chwarter 3), ond mae £223k o'r newid hwn oherwydd y gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £152k yn uwch na'r gyllideb (£47k yn is na'r gyllideb yn chwarter 3). Ar ddiwedd chwarter 3, roedd y rhagolwg yn £21k. Ers hynny adolygwyd y Dreth Gyngor ar eiddo CRT, ac eiddo gwag yn arbennig (nad oedd modd dod â nhw yn ôl i ddefnydd mor gyflym ag arfer oherwydd cyfyngiadau'r pandemig) a'r cyfleusterau cymunol na chodwyd amdanynt yn flaenorol (£97k yn ychwanegol), costau cyfleustodau ychwanegol ar gyfer yr ardaloedd cymunol (£29k), a chyfraniadau pensiwn eilradd ychwanegol (£47k).

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae tanwariant o £138k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (tanwariant o £259k yn chwarter 3). Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i sefyllfa Covid 19 gan mai dim ond gwaith atgyweirio hanfodol sy'n cael ei wneud, ac mae hynny wedi lleihau costau deunyddiau a'r defnydd a wneir o isgontractwyr. Fel y nodwyd yn yr adroddiad diwethaf, mae'n anodd mesur beth fydd effaith mwy o weithgaredd unwaith y bydd cyfyngiadau Covid wedi cael eu llacio, ond mae'r gost derfynol yn debyg i'r rhagolwg diwethaf, sef tanwariant o £200k, a wnaed cyn i rai o'r cyfyngiadau gael eu llacio.

**(ii)** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r Uned Cynnal a Chadw Tai £97k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (£67k yn is yn chwarter 3), oherwydd bod recriwtio yn arafach na'r disgwyl.

**(iii)** Roedd gorwariant o £166k (gorwariant o £134k yn chwarter 3) ar gostau Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall o'i gymharu â'r gyllideb broffiliedig. Y prif feysydd sy'n gorwario yw cynnal a chadw tiroedd a gwaith brys heb ei ragweld ar waith trin carthion. Bydd y gyllideb yn cael ei hadolygu ar gyfer 2021/22.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Canlyniad y broses eleni oedd tanwariant o £487k.

**(ii)** Roedd y prif arbediad oherwydd y cafwyd llai o wariant cyfalaf, gan olygu nad oedd angen unrhyw fenthyciadau ychwanegol ar y CRT. Roedd hyn yn arbed £570k o gymharu â'r gyllideb.

**(iii)** Roedd ailgodi tâl o'r Gwasanaeth Tai £10k yn uwch na'r gyllideb, ac roedd ailgodi tâl o weddill y Cyngor (sy'n cynnwys gwaith y swyddogaethau Cyfreithiol, AD, TGCh ac Adnoddau, a thâl am feddiannu eiddo'r Cyngor) £73k yn uwch na'r gyllideb (a gododd yn bennaf o'r adolygiad o werth swyddfeydd y Cyngor).

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020, yn werth cyfanswm o £19,114k, a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,450k) a chyfraniad o £15,004k o gronfa wrth gefn y CRT. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2019/20. Yn y diwedd, nid oedd angen y cyfan o'r gwariant a ddygwyd ymlaen, felly, erbyn hyn mae cyllideb ddiwygiedig o £19,032k (£14,922k ar ôl caniatáu am £4,110k o gyllid grant). Yr alldro oedd £12,622k, £6,410k yn llai na'r gyllideb (o gymharu â rhagolwg o £8,022k yn is na'r gyllideb yn chwarter 3).

**(ii)** Mae'r Pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar brosiectau cyfalaf, gan arwain at oedi sylweddol gyda phrosiectau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos prynu'n ôl hen dai Cyngor, a hynny oherwydd bod y farchnad dai wedi dod i stop i bob pwrpas. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y chwarter diwethaf serch hynny, gyda'r gwariant gwirioneddol yn cynyddu dros 70% o £7,355k i £12,622k. Mae'r prosiectau nad aeth rhagddynt fel y cynlluniwyd wedi cael eu gohirio i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Dangosir manylion pellach yn Atodiad B isod.

**(iii)** Yn ogystal, manteisiwyd ar grantiau cyfalaf ychwanegol a ddaeth ar gael, gan ddarparu dros £1.2m o gyllid ychwanegol. Roedd y cyllid ychwanegol hwn yn gostwng ymhellach y swm yr oedd angen ei gyllido o gyllideb refeniw'r CRT, sydd wedi gostwng o'r £15m a gynlluniwyd yn wreiddiol i £7.25m. Yna mae'r cyllid a ddarparwyd ar gael i gyllido'r prosiectau sydd wedi eu gohirio i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,597k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £7,088k o'r balans hwn. Fodd bynnag, mae'r gwariant is wedi caniatáu ychwanegu £1,145k yn ychwanegol i'r balans, gan adael cyfanswm o £9,742k. Mae'r balans wedi'i gyfyngu i ddibenion penodol, felly nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRTyn y dyfodol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin 2021 ac ymgorfforwyd y sylwadau ar yr adroddiad drafft yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â'r swyddog fel aelod o'r UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Alldro gwariant Refeniw am 2020/21.<br>Atodiad B – Alldro gwariant Cyfalaf am 2020/21. |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb CRT 2019/20 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019).<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2019/49 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019). |

**ATODIAD A**

## ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI AM 2020/21

| | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Alldro | Amrywiad | Alldro a ragwelwyd yn Ch3 | Newid o ragolwg Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | | |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Anheddau | (18,407,000) | (18,313,407) | 93,593 | (18,257,000) | (56,407) |
| Garejis | (218,000) | (212,407) | 5,593 | (218,000) | 5,592 |
| Taliadau Gwasanaeth | (212,000) | (214,605) | (2,605) | (212,000) | (2,605) |
| Arall | (199,000) | (226,193) | (27,193) | (199,000) | (27,193) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 280,000 | 56,954 | (223,046) | 280,000 | (223,046) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,756,000)** | **(18,909,658)** | **(153,658)** | **(18,606,000)** | **(303,658)** |
| **Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 136,170 | 94,356 | (41,814) | 101,170 | (6,814) |
| Gweinyddu Rhenti | 450,220 | 489,282 | 39,062 | 450,220 | 39,062 |
| Rheoli Stadau | 247,430 | 163,486 | (83,944) | 247,430 | (83,944) |
| Gwariant Refeniw Arall | 899,340 | 1,138,398 | 239,058 | 913,340 | 225,058 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,733,160** | **1,885,522** | **152,362** | **1,712,160** | **173,362** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai | 3,112,000 | 2,974,274 | (137,726) | 2,912,000 | 62,274 |
| Staff Cynnal Adeiladau (dim UCCT) | 926,020 | 828,872 | (97,148) | 866,020 | (37,148) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 448,200 | 614,690 | 166,490 | 548,200 | 66,490 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,486,220** | **4,417,836** | **(68,384)** | **4,326,220** | **91,616** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,093,000 | 2,523,125 | (569,875) | 3,093,000 | (569,875) |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 800,507 | 9,877 | 790,630 | 9,877 |
| Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog | 818,990 | 891,806 | 72,816 | 818,990 | 72,916 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,702,620** | **4,215,438** | **(487,182)** | **4,702,620** | **(487,182)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,922,000** | **10,518,796** | **(403,204)** | **10,741,000** | **(222,204)** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,834,000)** | **(8,390,862)** | **(556,862)** | **(7,865,000)** | **(525,862)** |

| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Gwariant 2020/21 | 19,032,093 | 12,622,544 | (6,409,549) | 11,010,058 | 1,612,486 |
| | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | (2,660,000) | (2,674,000) | (14,000) | (2,660,000) | (14,000) |
| **Grantiau Eraill** | (1,450,000) | (2,703,127) | (1,253,127) | (1,450,000) | (1,253,127) |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **14,922,093** | **7,245,417** | **(7,676,676)** | **6,900,058** | **345,359** |
| | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **7,088,093** | **(1,145,445)** | **(8,233,538)** | **(964,942)** | **(180,503)** |
| | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,597,000) | (8,597,000) | | (8,597,000) | 0 |
| | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyniad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 7,088,093 | (1,145,445) | (8,233,538) | (964,942) | (180,503) |
| | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(1,508,907)** | **(9,742,445)** | **(8,233,538)** | **(9,561,942)** | **(180,503)** |
| | | | | | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Alldro (£) | Amrywiad (£) | Alldro a ragwelwyd yn Ch3 (£) | Newid o ragolwg Ch3 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **<u>CRT Tai</u>** | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 21,387 | (378,613) | 0 | 21,387 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw Cynllunedig | 6,120,000 | 4,370,826 | (1,749,174) | 4,500,000 | (129,174) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 2,079 | (534,921) | 150,000 | (147,921) |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 61,717 | (688,283) | 100,000 | (38,283) |
| Caffael Eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 9,230,000 | 6,982,202 | (2,247,798) | 5,250,000 | 1,732,202 |
| Ailfodelu Stoc Gyfredol | 2,218 | 49,621 | 47,403 | 50,485 | (864) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 168,164 | (181,836) | 150,000 | 18,164 |
| Risg Tân | 450,000 | 52,735 | (397,265) | 100,000 | (47,265) |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru | 1,172,875 | 904,240 | (268,635) | 700,000 | 204,240 |
| Gwaith Adfer | 20,000 | 9,573 | (10,427) | 9,573 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **19,032,093** | **12,622,544** | **(6,409,549)** | **11,010,058** | **1,612,486** |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **21ain o Fehefin 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **Effaith rheoliadau 'Public Service Vehicle Accessibility Regulations 2000' ar werthu seddi gwag ar drafnidiaeth ysgol / coleg** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgs, Cynghorydd R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Huw Percy – Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**<br>**Rhys Hughes – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Iwan Cadwaladr**<br>**2455**<br>**iwancadwaladr@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob ward** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. Nad yw'r Awdurdod yn codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn am y flwyddyn academaidd 2021/22.
2. Fod yr Awdurdod yn cyfyngu'r hawl dim ond i'r pellter statudol ar gyfer 2021/22.
3. Fod y Cyngor yn buddsoddi mewn system electroneg er mwyn rheoli pa ddysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer ac yn teithio ar fws ysgol (amlinellir ymhellach yn rhan FF) – mae'r PG yn cytuno I ariannu y cerdiau mewn egwyddor ac yna i ddatblygu cynllun yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r cefndir ac y rhesymeg yn cael ei nodi yn rhan FF.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Byddai peidio codi ffi yn mynd yn erbyn yr hyn sydd wedi ei nodi yn y ddogfen Ffioedd a Thaliadau.

V1.2 GM10.9.19

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant o fewn y polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Amlinellir yr effaith ar y gyllideb yn rhan FF. |

| **Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-** | Yn y tymor byr, rhagwelir y byddai'r penderfyniad yma'n lleihau'r costau ychwanegol ar yr Awdurdod. Amlinellir hynny yn rhan FF. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda pwy.** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut**. | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010** | Gyda'r agenda cydraddoldeb byddai'r disgyblion sydd gydag anghenion arbennig yn parhau i gael cludiant tebyg drwy dacsi os ydynt yn gymwys. Amlinellir hynny yn rhan FF. Nid yw'r penderfyniad yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **economaidd-gymdeithasol.** | |
| 7 | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ymgorfforwyd yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Ymgorfforwyd yn yr adroddiad |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Ymgorfforwyd yn yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Mae Adran 40 o Ddeddf Gwahaniaethu (DDA) 1995 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i sicrhau bod Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn hygyrch i bobl anabl. Defnyddiodd y Llywodraeth Genedlaethol y pwerau hyn i sefydlu 'Public Service Vehicle Accessibility Regulations 2000 (PSVAR)'.<br><br>O'r 1af o Ionawr 2020 ymlaen mae PSVAR wedi bod yn berthnasol i gerbydau coets gyda mwy na 22 sedd a mi oedd angen i'r cerbyd fod yn hygyrch i bobl anabl. Wedi dweud hynny, mi oedd yr Adran Drafnidiaeth (Department for Transport) yn cynnig tystysgrif eithrio a oedd yn cynnig eithriad o'r rheoliadau hyn tan 1af o Ionawr 2022 (dyma sydd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd) |

Mae'r rheoliadau yma wedi bod yn y parth cyhoeddus ers nifer o flynyddoedd er mwyn caniatau i weithredwyr uwchraddio eu bysiau i gydymffurfio, ond y gred ledled Cymru a Lloegr ac ymysg Awdurdodau Lleol oedd na fyddai'r rheoliadau yma yn berthnasol i gytundebau bysiau ysgol caeedig.

Yn ystod Haf 2019 cadarnhaodd yr Adran Drafnidiaeth y byddai'r rheoliadau yma yn berthnasol i unrhyw wasanaeth lle mae taliad yn cael ei wneud i deithio, unai os yw'r taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r gyrrwr neu drwy'r Awdurdod Lleol gan fod y gwasanaeth yn dod 'yn berthnasol' ac mae anghenion y rheoliadau yn dod yn gymwys.

Mae'r anghenion i gerbydau coets yn cynnwys darparu lle ar gyfer cadair olwyn ynghyd â chymorth i ddod ymlaen (boarding aid), seddi blaenoriaeth, canllawiau, botymau cloch, stepiau yn dod allan ac offer i arddangos pen y daith. Er ei bod hi'n bosib gosod yr offer ar gerbydau coets nad ydynt yn rhai hygyrch, mae'n debyg y byddai gwneud hynny'n arbennig o gymhleth yn dechnegol ac yn eithriadol o ddrud. Mae'r mwyafrif o gytundebau presennol yr Awdurdod gyda chwmnïau cerbydau coets lleol ac nid yw eu cerbydau'n cwrdd â'r fanyleb newydd.

Fel sydd wedi ei grybwyll uchod, mae gan yr Awdurdod dystysgrif eithriad ar gyfer ein bysiau ysgol sydd yn gwerthu dros 20% o'r seddi sydd ar gael tan ddiwedd mis Gorffennaf a thystysgrif eithriad tan ddiwedd 2021 ar gyfer y gweddill. Hyd yn hyn, nid yw'n ymddangos y bydd yr Adran Drafnidiaeth yn cynnig estyniad arall wedi'r dyddiad hynny, petai estyniad arall yn cael ei gynnig yna mi fyddai'n galluogi Awdurdodau Lleol fel Môn i barhau i werthu seddi i ddisgyblion sydd ddim yn teilyngu y ddarpariaeth statudol – er enghraifft disgyblion sy'n byw llai na 3 milltir o'r ysgol ddalgylch a blynyddoedd 12 a 13.

Ar gyfartaledd mae'r incwm sydd yn cael ei gasglu am werthu tocynnau bws tua £66,000 y flwyddyn (mae'r ffigyrau yma wedi cael eu hamcangyfrif drwy edrych ar flynyddoedd 2014/15 hyd at 2019/20, ni chafodd 2020/21 eu hystyried gan nad oedd yr incwm yn adlewyrchiad teg o flwyddyn arferol). Rydym wedi holi ambell weithredwr sydd yn gweithredu bysiau ysgol Môn yn draddodiadol. Roedd y gweithredwyr hynny'n amcangyfrif cost rhwng £5,000 a £7,000 yn flynyddol fesul cytundeb. Byddai'n rhaid i'r gweithredwyr basio'r gost hon ymlaen i'r Awdurdod am bob cytundeb y byddent yn ei brisio i gwrdd a'r rheoliadau yma. Wrth ddefnyddio'r ffigyrau hynny rydym yn amcan y byddai tendro'r 54 cytundeb cyfredol ym Môn yn creu costau ychwanegol o rhwng £270,000 a £378,000 yn flynyddol.

Byddai peidio â chodi ffi o fis Medi yn golygu ein bod yn gallu ymestyn y trefniadau presennol gyda'r gweithredwyr bws tan Hydref 2022 pan bydd y cytundebau presennol yn dod i ben. Gan na fyddai taliad yn newid dwylo ni fyddai'r rheoliadau yn berthnasol.

Byddai gofyn i weithredwyr ddarparu cerbydau o'r fath yn rhoi y dewis i ddisgyblion sydd ag anableddau i deithio ar fws ond mewn sefyllfaoedd tebyg mae'r Awdurdod yma ac

Awdurdodau eraill ledled Cymru yn darparu trafnidiaeth tebyg drwy dacsi beth bynnag ac hynny o ddrws cartref y disgyblion i iard y sefydliad addysgol. Petai disgybl ag anableddau neu theulu disgybl ag anableddau yn dymuno i'r plentyn deithio ar fws i'r sefydliad addysg ni fyddai hynny'n bosibl o ddrws y cartref, gan amlaf mi fyddai hynny'n golygu taith at y safle bws agosaf. Gan ystyried tirwedd Môn ac ardaloedd gwledig yr Ynys nid yw plentyn wastad yn disgwyl mewn safle bws pwrpasol, weithiau mae'n rhaid iddynt ddisgwyl ar fin y ffordd, hynny yw mewn safle di-goncrid ac felly er byddai cerbyd o'r fath yn cael ei ddarparu nid yw'r isadeiledd ar gael mewn sawl lleoliad i gefnogi'r ddarpariaeth. Gallai hynny yn ei dro arwain at gost ychwanegol.

Mae'n bosibl y bydd peidio â chodi ffi yn golygu y bydd rhagor o ddisgyblion yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth. Mae crynodeb isod o nifer y seddi ar fysiau a nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Uwchradd Môn.

Ysgol Syr Thomas Jones ac Ysgol Uwchradd Bodedern – mae'n ymddangos bod mwy o seddi na disgyblion yn Ysgol Syr Thomas Jones ac Ysgol Uwchradd Bodedern. Os bydd cynnydd yn y galw gobeithir y byddai seddi ar gael.

Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol David Hughes – mae tua 200 mwy o ddisgyblion yn yr ysgolion hynny na'r capasiti sydd ar gael ar fysiau ar hyn o bryd. Gallwn dybio bod nifer o ddisgyblion un ai yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol, yn gyrru eu hunain (disgyblion blynyddoedd 12 a 13) neu gyda modd arall o gyrraedd yr ysgolion hynny.

Ysgol Uwchradd Caergybi – Bydd angen edrych yn fwy manwl ar sefyllfa Caergybi o ran niferoedd disgyblion ar fysiau. Pryder gan fod dros 700 yn fwy o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol hon na'r nifer o seddi sydd ar gael ar fysiau. Wedi dweud hynny, gallwn dybio bod nifer fawr o'r disgyblion yma'n byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol honno, felly bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa yma ac efallai bydd angen darparu seddi ychwanegol petai angen.

Yn ogystal â hyn, rydym yn ceisio tynhau'r sefyllfa drwy sicrhau bod pob disgybl sy'n teilyngu defnyddio'r ddarpariaeth yn cael tocyn bws ac y bydd angen dangos y tocyn er mwyn teithio. I'r perwyl yma, mae'r Awdurdod yn ymchwilio opsiynau, costau ac amserlen buddsoddi mewn system docynnau y byddai'n cynorthwyo'r Awdurdod i adnabod yr union ddisgyblion sydd yn defnyddio'r ddarpariaeth o safbwynt iechyd a diogelwch. Byddai hyn yn cryfhau trefniadau mewnol yr Awdurdod petai damwain neu ddigwyddiad, neu achos Covid. Yn yr amgylchiadau sydd ohoni ar hyn o bryd gyda'r feirws ar led, byddai system debyg yn cynorthwyo gyda trefniadau olrhain cysylltiadau'r Awdurdod. Rydym yn rhagweld costau ychwanegol o tua £50,000 am y flwyddyn gyntaf (cynnwys costau cychwynnol o ymgynghori ac offer) ac yna £25,000 y flwyddyn am weddill y gytundeb, yn seiliedig ar gytundeb cychwynnol o dair blynedd.

Felly i gloi, dyma grynhoi:

- byddai peidio â chodi ffi yn golygu ein bod yn gallu ymestyn y trefniadau presennol gyda'r gweithredwyr bws tan Hydref 2022. Nid yn unig bydd hynny'n rhoi sicrwydd i weithredwyr coets lleol mewn cyfnod eithriadol o ansicr, ond erbyn yr adeg honno

efallai y bydd effeithiau’r pandemig yn dechrau lleihau ar y gweithredwyr a phetai’r Awdurdod yn dymuno ail ddechrau codi ffi, yna efallai y bydd y prisiau bydd gweithredwyr yn eu cyflwyno yn llawer mwy cystadleuol. Mae’n rhaid cofio mae’r pandemig wedi cael effaith andwyol ar y diwydiant yma, lle mae sefyllfa sawl gweithredwr yn fregus beth bynnag, byddai gofyn i weithredwyr ddarparu cerbydau tebyg ond yn ychwanegu efallai at eu baich ariannol mewn cyfnod lle mae rhan sylweddol o farchnad rhai gweithredwyr lleol wedi diflannu’n llwyr er enghraifft cludo trigolion lleol ar dripiau o fewn y Ddeyrnas Unedig neu dramor.

- fel sydd wedi ei grybwyll yn gynharach gan nad oes estyniad arall ar ôl 31 Ragfyr 2021 ar y gweill ar hyn o bryd, yr argymhelliad yw nad yw’r Awdurdod yn codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn o fis Medi 2021 hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd 2021/22.

- byddai’r golled incwm oddeutu £66,000 ac rydym yn argymell fod y golled incwm yn cael ei ariannu o gostau canolog gan mae rheoliadau Llywodraeth Cenedlaethol ydi’r newidiadau a ddim penderfyniad gan y Gwasanaeth Dysgu. Yn gynnar yn 2022 byddwn yn edrych ar y sefyllfa ar gyfer Hydref 2022 er mwyn pwyso a mesur a fydd gwerth gofyn fod y tendrau newydd bryd hynny’n gofyn am fysiau sydd yn cwrdd â’r rheoliadau ai peidio ac drwy wneud byddai modd dechrau codi ffi unwaith eto.

- er mwyn sicrhau bod pob disgybl sy’n teilyngu defnyddio’r ddarpariaeth yn cael tocyn bws ac y bydd angen dangos y tocyn er mwyn teithio. I’r perwyl yma, mae’r Awdurdod yn ymchwilio opsiynau, costau ac amserlen buddsoddi mewn system docynnau y byddai’n cynorthwyo’r Awdurdod i adnabod yr union ddisgyblion sydd yn defnyddio’r ddarpariaeth am rhesymau iechyd a diogelwch. Rydym yn rhagweld costau ychwanegol o tua £50,000 am y flwyddyn gyntaf (cynnwys costau cychwynnol o ymgynghori ac offer) ac yna £25,000 y flwyddyn am weddill y gytundeb, yn seiliedig ar gytundeb cychwynnol o dair blynedd. Nid oes cyllideb ar gael ar gyfer y costau yma, felly rydym yn gwneud cais ac yn argymell bod y costau yma yn dod o gostau canolog y Cyngor, neu cronfa ‘digital transformation’. Os bydd cyllid ar gael, bydd y Timau Addysg a Chludiant yn cydweithio â'r bwriad o weithredu sustem yn ystod blwyddyn addysg 2021/22.

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adfywio Hen Safle Ysgol & Llyfrgell, Caergybi***
***Regeneration of the Former School and Library Site, Holyhead***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| **Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br>Paragraph(s) **14**, of Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF / THE TEST | |
| **Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-**<br><br>**Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli'r cyfleuster hamdden hwn a'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer yr ardal yn y dyfodol er mwyn:**<br><br>• **Adolygu atebolrwydd a thryloywder**<br>• **Herio penderfyniadau a wneir**<br>• **Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau am y safle**<br>• **Effaith ehangach yr opsiynau trawsnewid ar y gymuned a'r economi leol**<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council proposes to manage this leisure facility and what future plans it has for this area in order to:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding the site<br>• The wider impact of transformation options on local community and economy. | **Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:**<br><br>**Gallai datgelu gael effaith ar fuddiannau masnachol partner datblygu neu'r sawl sy'n prynu'r eiddo.**<br><br>**Gallai datgelu gael effaith andwyol ar drafodaethau'r Cyngor.**<br><br>**Nid oes unrhyw gynlluniau swyddogol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y safle ac o'r herwydd, nid yw gwybodaeth ynghylch cynlluniau o'r fath ar gael.**<br><br>**Gallai rhyddhau gohebiaeth fewnol beryglu unrhyw gynlluniau y gall y Cyngor fod yn dymuno eu datblygu a gwerth posibl y safle mewn perthynas ag unrhyw gynigion yn y dyfodol, gan effeithio felly ar fuddiannau masnachol y safle.**<br><br>**Nid oes unrhyw ymgynghori cyhoeddus wedi digwydd mewn perthynas â'r safle.**<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could impact on the commercial interests of a development partner or purchaser of the facility.<br><br>Disclosure may prejudice the Council's negotiation position.<br><br>No definitive development plans have been finalised for the site and so information regarding any such plans is not available.<br><br>The release of internal correspondence could jeopardise any plans which the Council may wish to develop and the potential value of the |

| | |
|---|---|
| | site in relation to any future proposals, thus affecting the commercial interests in the site.<br><br>No public consultation has taken place to date regarding the site. |
| Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br><br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank